



---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

---

**2013 Rhif 1662 (Cy. 158)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**Rheoliadau Clefyd Affricanaidd y Ceffylau (Cymru) 2013**

*Gwnaed*

*3 Gorffennaf 2013*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaehol Cymru* *5 Gorffennaf 2013*

*Yn dod i rym*

*31 Gorffennaf 2013*

---

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2013 No. 1662 (W. 158)**

**ANIMALS, WALES**

**ANIMAL HEALTH**

**The African Horse Sickness (Wales) Regulations 2013**

*Made*

*3 July 2013*

*Laid before the National Assembly for Wales*

*5 July 2013*

*Coming into force*

*31 July 2013*



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2013 Rhif 1662 (Cy. 158)**

**2013 No. 1662 (W. 158)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**ANIMALS, WALES**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**ANIMAL HEALTH**

**Rheoliadau Clefyd Affricanaidd y  
Ceffylau (Cymru) 2013**

**The African Horse Sickness (Wales)  
Regulations 2013**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu, o ran Cymru, ddarpariaethau Cyfarwydddeb y Cyngor 92/35/EEC, sy'n gosod rheolau a mesurau rheoli i drechu clefyd Affricanaidd y ceffylau (OJ L Rhif 157, 10.6.1992 t19). Maent yn dirymu darpariaethau Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu a Chigydda) 1992 a Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu) 1996 i'r graddau y maent yn gymwys i glefyd Affricanaidd y ceffylau ac i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru.

Rhagarweiniad yw Rhan 1, ac mae'n cynnwys diffiniadau.

Mae Rhan 2 yn ymdrin â hysbysu ynghylch amheuaeth o glefyd Affricanaidd y ceffylau.

Mae Rhan 3 a'r Atodlen yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefyllfa pan fo clefyd Affricanaidd y ceffylau yn cael ei amau neu ei gadarnhau mewn mangre. Mae Rhan 3 hefyd yn ymdrin â mangre sydd â chyswllt â mangre heintiedig, ac mae'n gwneud darpariaeth, yn dilyn datgan bod mangre yn fangre heintiedig, i atal rhag dod â cheffylau i fangreoedd eraill oherwydd y risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu.

Mae Rhan 4 yn ymdrin â lladd-dai.

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer ceffylau nad ydynt yn rhai caeth.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations implement in relation to Wales the provisions of Council Directive 92/35/EEC laying down control rules and measures to combat African horse sickness (OJ L No 157, 10.6.1992 p19). They revoke the provisions of the Specified Diseases (Notification and Slaughter) Order 1992 and the Specified Diseases (Notification) Order 1996 in so far as they apply to African horse sickness and in so far as they apply to Wales.

Part 1 is introductory and includes definitions.

Part 2 deals with notification of suspicion of African horse sickness.

Part 3 and the Schedule make provision for where African horse sickness is suspected or confirmed on premises. Part 3 also deals with premises which have a link with infected premises and makes provision, following the declaration of premises as infected premises, to prevent horses from being brought onto other premises due to the risk of African horse sickness virus spreading.

Part 4 deals with slaughterhouses.

Part 5 makes special provision for non-captive horses.

Mae Rhan 6 a'r Atodlen yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu rheolaethau ardal drwy ddatgan gwahanol barthau.

Mae Rhan 7 yn gwahardd brechu rhag clefyd Affricanaidd y ceffylau ac eithrio yn yr amgylchiadau a nodir yno, ac mae'n cynnwys pwerau i ddatgan parth brechu.

Mae Rhan 8 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag arolygu, gorfodi a materion eraill.

Yr awdurdod lleol sy'n gorfodi'r Rheoliadau hyn.

Mae torri unrhyw un o'r darpariaethau a restrir yn rheoliad 35 yn drosedd a gaiff ei chosbi drwy gollfarn ddiannod neu gollfarn ar dditiad. O gollfarnu'n ddiannod, mae'r drosedd i'w chosbi naill ai â dirwy nad yw'n uwch na'r uchafswm statudol yn unig, neu (pan fo mwy o risg y gallai'r clefyd ymledu oherwydd y toriad) ddirwy nad yw'n uwch na'r uchafswm statudol a charchariad am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis neu'r ddau. O gollfarnu ar dditiad, mae'r drosedd i'w chosbi â dirwy neu garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na chwe mis neu'r ddau.

Mae rheoliad 2(1) yn cyfeirio at Safon Brydeinig 7320, a gellir cael copïau ohoni oddi ar wefan y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI), gan unrhyw un o'r safleoedd gwerthu a weithredir gan y BSI, neu drwy'r post gan Wasanaethau Cwsmeriaid y BSI, 389 Chiswick High Road, Llundain, W4 4AL.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision tebygol o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth: Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Part 6 and the Schedule make provision for the establishment of area controls by way of declaration of different zones.

Part 7 prohibits vaccination against African horse sickness except in the circumstances set out there, and contains powers to declare a vaccination zone.

Part 8 contains provisions relating to inspection, enforcement and other matters.

These Regulations are enforced by the local authority.

Breach of any of the provisions listed in regulation 35 is an offence punishable on summary conviction or on conviction on indictment. On summary conviction, the offence is punishable with either a fine not exceeding the statutory maximum only, or (where there is a higher risk of the disease spreading due to the breach) a fine not exceeding the statutory maximum and imprisonment for a term not exceeding three months or both. On conviction on indictment, the offence is punishable with a fine or imprisonment for a term not exceeding six months or both.

Regulation 2(1) refers to British Standard 7320, copies of which can be obtained from the website of the British Standards Institute (BSI), from any of the sales outlets operated by the BSI or by post from BSI Customer Services, 389 Chiswick High Road, London, W4 4AL.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefit of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Office of the Chief Veterinary Officer, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2013 Rhif 1662 (Cy. 158)**

**2013 No. 1662 (W. 158)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**ANIMALS, WALES**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**ANIMAL HEALTH**

**Rheoliadau Clefyd Affricanaidd y  
Ceffylau (Cymru) 2013**

**The African Horse Sickness (Wales)  
Regulations 2013**

*Gwnaed* 3 Gorffennaf 2013

*Made* 3 July 2013

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 5 Gorffennaf 2013

*Laid before the National Assembly for Wales*  
5 July 2013

*Yn dod i rym* 31 Gorffennaf 2013

*Coming into force* 31 July 2013

## CYNNWYS

## CONTENTS

### RHAN 1 Cyflwyniad

### PART 1 Introduction

1. Enwi, cymhwyso a chychwyn
2. Dehongli
3. Cyfeiriadau at rwymedigaethau  
meddiannydd a rhwymedigaethau  
ychwanegol
4. Esemptiadau

1. Title, application and commencement
2. Interpretation
3. References to occupier and additional  
obligations
4. Exemptions

### RHAN 2

### PART 2

Hysbysu ynghylch amheuaeth o glefyd Affricanaidd  
y ceffylau

Notification of suspicion of African horse sickness

5. Gofynion hysbysu

5. Notification requirements

### RHAN 3

### PART 3

Amheuaeth a chadarnhad o glefyd Affricanaidd y  
ceffylau

Suspicion and confirmation of African horse  
sickness

6. Cwmpas Rhan 3
7. Rheolaethau cychwynnol yn dilyn  
hysbysiad
8. Gosod mesurau pan fo amheuaeth o  
glefyd

6. Scope of Part 3
7. Initial controls following notification
8. Imposing measures on suspicion of  
disease

9. Mesurau yn dilyn amheuaeth – mangre ac eithrio mangre gyswllt
10. Mesurau yn dilyn amheuaeth – mangre gyswllt
11. Pwerau i atal rhag dod â cheffylau i fangreodd eraill
12. Lladd ceffylau mewn mangre heintiedig a mangre gyswllt a chael gwared ar garcasau
13. Dirymu hysbysiadau sy'n datgan bod mangre yn fangre heintiedig

#### RHAN 4

##### Lladd-dai

14. Gosod rheolaethau cychwynnol mewn lladd-dai
15. Camau gweithredu yn dilyn archwiliad

#### RHAN 5

##### Ceffylau nad ydynt yn rhai caeth

16. Amheuaeth ynghylch ceffylau nad ydynt yn rhai caeth

#### RHAN 6

##### Rheolaethau ardal

17. Parth cyfyngu dros dro ar symud
18. Parth rheolaeth, parth gwarchod a pharth gwyliadwriaeth
19. Parthau haint
20. Datgan parthau lle y mae clefyd Affricanaidd y ceffylau yn cael ei amau neu wedi ei gadarnhau y tu allan i Gymru
21. Datgan parthau
22. Mangreodd sy'n pontio parthau
23. Cyhoedduswydd

#### RHAN 7

##### Brechu

24. Gwahardd brechu ac eithrio mewn rhai achosion penodol
25. Brechu gorfodol
26. Ceffylau wedi eu brechu

#### RHAN 8

##### Arolygu, gorfodi a darpariaethau amrywiol

27. Hysbysiadau

9. Measures following suspicion – premises other than contact premises
10. Measures following suspicion – contact premises
11. Powers to prevent horses from being brought onto other premises
12. Killing horses on infected premises and contact premises and disposal of carcasses
13. Revocation of notices declaring premises to be infected premises

#### PART 4

##### Slaughterhouses

14. Imposition of initial controls at slaughterhouses
15. Action following examination

#### PART 5

##### Non-captive horses

16. Suspicion relating to non-captive horses

#### PART 6

##### Area controls

17. Temporary movement restriction zone
18. Control zone, protection zone and surveillance zone
19. Infection zones
20. Declaration of zones where African horse sickness suspected or confirmed outside Wales
21. Declaration of zones
22. Premises straddling zones
23. Publicity

#### PART 7

##### Vaccination

24. Prohibition on vaccination except in certain cases
25. Compulsory vaccination
26. Vaccinated horses

#### PART 8

##### Inspection, enforcement and miscellaneous provisions

27. Notices

28. Trwyddedau
29. Pwerau arolygwyr
30. Hysbysiad yn dilyn torri'r cyfyngiad ar symud
31. Newid prif feddiannydd mangre sydd o dan gyfyngiad – mynediad at ddibenion lles
32. Pwerau arolygwyr mewn achos o fethu â chydymffurfio
33. Digolledu am geffylau a laddwyd a phethau yr ymafaeliwyd ynddynt
34. Rhwystro
35. Troseddau a chosbau
36. Troseddau gan gyrff corfforaethol
37. Troseddau gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig
38. Gorfodi
39. Amgylchiadau eithriadol
40. Diwygiadau

28. Licences
29. Powers of inspectors
30. Notice following a contravention on movement
31. Change of main occupier of premises under restriction – access for welfare purposes
32. Powers of inspectors in case of default
33. Compensation for horses killed and things seized
34. Obstruction
35. Offences and penalties
36. Offences by bodies corporate
37. Offences by partnerships and unincorporated associations
38. Enforcement
39. Exceptional circumstances
40. Amendments

YR ATODLEN – Mesurau mewn mangre sydd dan amheuaeth a mangre heintiedig ac mewn mangre mewn parth rheolaeth

SCHEDULE — Measures on suspect and infected premises and on premises in a control zone

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd, ac yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno.

The Welsh Ministers are designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to the common agricultural policy of the European Union and make these Regulations in exercise of the powers conferred by that section.

## RHAN 1

### Cyflwyniad

#### Enwi, cymhwyso a chychwyn

##### 1. O ran y Rheoliadau hyn—

- (a) eu henw yw Rheoliadau Clefyd Affricanaidd y Ceffylau (Cymru) 2013;

## PART 1

### Introduction

#### Title, application and commencement

##### 1. These Regulations—

- (a) are called the African Horse Sickness (Wales) Regulations 2013;

(1) Yn rhinwedd erthygl 3 o Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 5) 2010, O.S. 2010/2690.

(2) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51), adran 27(1)(a) a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), adran 3(3) a Rhan 1 o'r Atodlen.

(1) By virtue of article 3 of the European Communities (Designation) (No.5) Order 2010, S.I. 2010/2690.

(2) 1972 c. 68. Section 2(2) was amended by the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51), section 27(1)(a) and the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7), section 3(3) and Part 1 of the Schedule.

- (b) maent yn gymwys o ran Cymru; ac
- (c) maent yn dod i rym ar 31 Gorffennaf 2013.

## Dehongli

### 2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “arolygydd” (“*inspector*”) ac “arolygydd milfeddygol” (“*veterinary inspector*”) yw personau sydd wedi eu penodi felly at ddibenion Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981(1);

ystyr “carcas” (“*carcase*”) yw carcass neu ran o garcas ceffyl, ond nid yw’n cynnwys sampl a gymerir o garcas;

ystyr “ceffyl” (“*horse*”) yw unrhyw anifail o’r teulu Equidae, ac mae’n cynnwys croesiadau o’r anifeiliaid hynny;

ystyr “cyfarpar” (“*equipment*”), ac eithrio yn rheoliad 29(8)(a), yw unrhyw gyfarpar sydd wedi bod mewn cyswllt â gwaed neu hylifau corfforol eraill o geffyl, gan gynnwys nodwyddau a chyfarpar llawfeddygol neu ddeintyddol, oni bai fod y cyfarpar hwnnw wedi ei sterileiddio yn dilyn cyswllt o’r fath neu wedi ei gau’n ddiogel mewn cynhwysydd cyfarpar miniog sy’n cydymffurfio â Safon Brydeinig 7320(2) (neu safon gyfatebol);

ystyr “deunydd genetig” (“*genetic material*”) yw unrhyw semen, ofwm neu embryo ceffyl;

ystyr “fector” (“*vector*”) yw pryf o’r genws *Culicoides* neu unrhyw rywogaeth arall o arthropod sy’n gallu trosglwyddo feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau;

mae “mangre” (“*premises*”) yn cynnwys unrhyw fan;

ystyr “mangre dan amheuaeth” (“*suspect premises*”) yw mangre sydd wedi ei dynodi, o dan reoliad 8(2), yn fangre dan amheuaeth;

ystyr “mangre gyswllt” (“*contact premises*”) yw mangre sydd â chyswllt epidemiolegol â mangre heintiedig, gan gynnwys y rhai sydd, oherwydd eu bod yn agos at fangre heintiedig, yn rhai y mae’r Prif Swyddog Milfeddygol yn barnu bod ganddynt gyswllt epidemiolegol â mangre heintiedig;

ystyr “mangre heintiedig” (“*infected premises*”) yw mangre sydd wedi ei datgan, o dan reoliad 9(8) neu 10(7), yn fangre heintiedig;

ystyr “Prif Swyddog Milfeddygol” (“*Chief Veterinary Officer*”) yw Prif Swyddog Milfeddygol Cymru.

- (b) apply in relation to Wales; and
- (c) come into force on 31 July 2013.

## Interpretation

### 2.—(1) In these Regulations—

“carcase” (“*carcas*”) means a carcase or part of a carcase of a horse, but does not include a sample taken from a carcase;

“Chief Veterinary Officer” (“*Prif Swyddog Milfeddygol*”) means the Chief Veterinary Officer for Wales;

“contact premises” (“*mangre gyswllt*”) means premises that have an epidemiological connection with infected premises, including those that due to their proximity to infected premises the Chief Veterinary Officer considers have an epidemiological connection with infected premises;

“equipment” (“*cyfarpar*”), except in regulation 29(8)(a), means any equipment that has been in contact with blood or other bodily fluids from a horse, including needles and surgical or dental equipment, unless that equipment has either been sterilised following such contact or is securely confined in a sharps container complying with British Standard 7320(1) (or equivalent standard);

“genetic material” (“*deunydd genetig*”) means any semen, ovum or embryo of a horse;

“horse” (“*ceffyl*”) means any animal of the family Equidae and includes crossings of those animals;

“infected premises” (“*mangre heintiedig*”) means premises that have been declared to be infected premises under regulation 9(8) or 10(7);

“inspector” (“*arolygydd*”) and “veterinary inspector” (“*arolygydd milfeddygol*”) mean persons appointed as such for the purposes of the Animal Health Act 1981(2);

“premises” (“*mangre*”) includes any place;

“suspect premises” (“*mangre dan amheuaeth*”) means premises that have been designated as suspect premises under regulation 8(2);

“vector” (“*fector*”) means an insect of the genus *Culicoides* or any other species of arthropod capable of transmitting African horse sickness virus.

(1) 1981 p. 22.

(2) ISBN 0 580 18481 1, cyhoeddwyd 29 Mehefin 1990.

(1) ISBN 0 580 18481 1, published 29 June 1990.

(2) 1981 c. 22.



(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at geffyl neu garcas hysbysedig yn gyfeiriad at geffyl neu garcas (yn ôl y digwydd) sy'n destun hysbysiad a roddir o dan reoliad 5(1).

### **Cyfeiriadau at rwymedigaethau meddiannydd a rhwymedigaethau ychwanegol**

#### **3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—**

- (a) mae cyfeiriad at feddiannydd mangre yn cynnwys cyfeiriad at berson sy'n berchen ar geffyl neu'n gyfrifol am geffyl yn y fangre;
- (b) prif feddiannydd y fangre yw'r person sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y fangre.

(2) Caniateir cyflwyno unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol neu sydd wedi ei awdurdodi o dan y Rheoliadau hyn—

- (a) sydd i'w gyflwyno i brif feddiannydd y fangre, i unrhyw berson y mae'n ymddangos i'r person sy'n cyflwyno'r hysbysiad mai dyna'r prif feddiannydd;
- (b) sydd i'w gyflwyno i unrhyw feddiannydd arall y fangre, i unrhyw berson y mae'n ymddangos i'r person sy'n cyflwyno'r hysbysiad mai dyna'r meddiannydd hwnnw.

(3) Pan fo hysbysiad wedi ei gyflwyno i berson y cyfeirir ato ym mharagraff (2), mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at y prif feddiannydd, neu yn ôl y digwydd, unrhyw feddiannydd arall y fangre yn cynnwys cyfeiriad at y person hwnnw.

(4) Pan fo'n ofynnol i brif feddiannydd y fangre gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth o dan y Rheoliadau hyn neu yn eu rhinwedd, rhaid i unrhyw feddiannydd arall y fangre roi i'r prif feddiannydd y cymorth sydd ei angen yn rhesymol er mwyn galluogi cydymffurfio o'r fath.

(5) Pan fo hysbysiad wedi ei gyflwyno i brif feddiannydd y fangre o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i'r prif feddiannydd gymryd camau rhesymol i hysbysu (ar lafar neu fel arall) unrhyw feddiannydd arall y fangre ac unrhyw berson arall sy'n mynd i mewn i'r fangre am unrhyw gyfyngiadau ar symud unrhyw geffyl, carcas, cyfarpar neu ddeunydd genetig i'r fangre neu ohoni o ganlyniad i gyflwyno'r hysbysiad.

(6) Caniateir cyflwyno hysbysiad sy'n ofynnol neu sydd wedi ei awdurdodi o dan y Rheoliadau hyn, sydd i'w gyflwyno i brif feddiannydd y fangre (yn ogystal â'i gyflwyno i'r prif feddiannydd), i unrhyw feddiannydd arall y fangre.

### **Esemptiadau**

#### **4. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys—**

(2) In these Regulations, a reference to a notified horse or carcase is a reference to a horse or a carcase (as the case may be) which is the subject of a notification given under regulation 5(1).

### **References to occupier and additional obligations**

#### **3.—(1) In these Regulations—**

- (a) a reference to an occupier of premises includes a reference to a person who has ownership or charge of a horse on the premises;
- (b) the main occupier of premises is the person who has overall responsibility for the premises.

(2) Any notice required or authorised under these Regulations—

- (a) to be served on the main occupier of premises may be served on any person appearing to the person serving the notice to be the main occupier;
- (b) to be served on any other occupier of premises may be served on any person appearing to the person serving the notice to be that occupier.

(3) Where a notice has been served on a person referred to in paragraph (2), any reference in these Regulations to the main occupier or, as the case may be, any other occupier of the premises includes a reference to that person.

(4) Where the main occupier of premises is required to comply with any obligation under or by virtue of these Regulations, any other occupier of the premises must give the main occupier such assistance as is reasonably required to enable such compliance.

(5) Where the main occupier of premises has been served with a notice under these Regulations, the main occupier must take reasonable steps to inform (orally or otherwise) any other occupier of the premises and any other person entering the premises of any restrictions on the movement to or from the premises of any horse, carcase, equipment or genetic material arising from the service of the notice.

(6) A notice required or authorised under these Regulations to be served on the main occupier of premises may (in addition to it being served on the main occupier) be served on any other occupier of the premises.

### **Exemptions**

#### **4. These Regulations do not apply—**



- (a) i unrhyw beth a wneir o dan delerau trwydded a roddir o dan Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008(1), na
- (b) yn unrhyw arolygfa ffin o fewn ystyr rheoliad 11 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(2) a chyhyd ag y mae'n parhau wedi ei gymeradwyo at ei ddibenion.

- (a) to anything done under the terms of a licence granted under the Specified Animal Pathogens (Wales) Order 2008(1), or
- (b) at any border inspection post within the meaning of, and for so long as it remains approved for the purposes of, regulation 11 of the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011(2).

## RHAN 2

### Hysbysu ynghylch amheuaeth o glefyd Affricanaidd y ceffylau

#### Gofynion hysbysu

5.—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n amau bod ceffyl neu garcas wedi ei heintio â feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau hysbysu Gweinidogion Cymru ar unwaith.

(2) Rhaid i unrhyw berson sy'n archwilio sampl a gymerwyd o geffyl neu garcas ac sydd—

- (a) yn amau bod y ceffyl neu'r carcas wedi ei heintio â feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau, neu
- (b) yn canfod tystiolaeth o wrthgyrff i'r feirws hwnnw neu antigenau ohono,

hysbysu Gweinidogion Cymru ar unwaith.

(3) Ond mae paragraffau (1) a (2) yn ddarostyngedig i baragraff (5).

(4) Caiff arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad i unrhyw feddiannydd mangre heintiedig gan nodi nad oes angen hysbysu Gweinidogion Cymru ynghylch unrhyw achosion pellach lle y mae amheuaeth bod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn y fangre honno, cyhyd ag y bo'r hysbysiad yn parhau mewn grym.

(5) Pan fo hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan baragraff (4)—

- (a) nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw geffyl neu garcas yn y fangre heintiedig, a
- (b) nid yw paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw sampl a gymerwyd o geffyl neu garcas yn y fangre heintiedig,

cyhyd ag y bo'r hysbysiad yn parhau mewn grym.

(6) Oni bai ei fod wedi ei ddirymu yn gynharach gan arolygydd milfeddygol, mae hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (4) yn peidio â bod mewn grym pan fo'r

## PART 2

### Notification of suspicion of African horse sickness

#### Notification requirements

5.—(1) Any person who suspects that a horse or carcase is infected with African horse sickness virus must immediately notify the Welsh Ministers.

(2) Any person who examines a sample taken from a horse or carcase and who—

- (a) suspects that the horse or carcase is infected with African horse sickness virus, or
- (b) detects evidence of antibodies to, or antigens of, that virus,

must immediately notify the Welsh Ministers.

(3) But paragraphs (1) and (2) are subject to paragraph (5).

(4) A veterinary inspector may serve a notice on any occupier of infected premises indicating that any further suspected cases of African horse sickness virus on those premises need not be notified to the Welsh Ministers for so long as the notice remains in force.

(5) Where a notice has been served under paragraph (4)—

- (a) paragraph (1) does not apply in relation to any horse or carcase on the infected premises, and
- (b) paragraph (2) does not apply in relation to any sample taken from a horse or carcase on the infected premises,

for so long as the notice remains in force.

(6) Unless earlier revoked by a veterinary inspector, a notice served under paragraph (4) ceases to be in force when the notice declaring the premises to be

(1) O.S. 2008/1270 (Cy.129) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/3234 (Cy.281).

(2) O.S. 2011/2379 (Cy.252).

(1) S.I. 2008/1270 (W.129) as amended by S.I. 2009/3234 (W.281).

(2) S.I. 2011/2379 (W.252).

hysbysiad sy'n datgan bod y fangre yn fangre heintiedig a gyflwynwyd o dan reoliad 9(8) neu 10(7) (yn ôl y digwydd) wedi ei dirymu gan arolygydd milfeddygol neu yn rhinwedd rheoliad 13(2).

## RHAN 3

Amheuaeth a chadarnhad o glefyd Affricanaidd y ceffylau

### Cwmpas Rhan 3

6. Nid yw'r Rhan hon yn gymwys mewn perthynas â lladd-dai neu geffylau nad ydynt yn rhai caeth.

### Rheolaethau cychwynnol yn dilyn hysbysiad

7.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o dan reoliad 5(1) a bod arolygydd milfeddygol yn barnu bod angen ymchwilio rhagor am y posibilrwydd fod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol.

(2) Rhaid i arolygydd milfeddygol roi gwybod (ar lafar neu fel arall) i'r person a roddodd yr hysbysiad fod angen ymchwilio rhagor.

(3) Pan fo'r person hwnnw wedi cael gwybod hynny, mae'r rheolaethau sydd ym mharagraff (7) yn gymwys mewn perthynas â'r fangre lle y mae'r ceffyl neu'r carcass hysbysedig (yn ôl y digwydd) wedi ei leoli.

(4) Pan nad y fangre honno yw'r fangre lle y cedwir y ceffyl hysbysedig fel arfer neu, yn achos carcass hysbysedig, lle y cedwid y ceffyl fel arfer cyn iddo farw, caiff arolygydd milfeddygol roi gwybod hefyd (ar lafar neu fel arall) i brif feddiannydd y mangreoedd eraill hynny bod angen ymchwilio rhagor.

(5) Pan fo'r prif feddiannydd wedi cael gwybod hynny, mae'r rheolaethau sydd ym mharagraff (7), ac eithrio yn is-baragraff (a)(i), yn gymwys mewn perthynas â'r mangreoedd eraill hynny.

(6) O ran arolygydd milfeddygol—

- (a) rhaid iddo fynd i'r fangre lle y mae'r ceffyl neu'r carcass hysbysedig wedi ei leoli ac archwilio'r ceffyl neu'r carcass hwnnw, a chaiff archwilio unrhyw geffyl neu garcas arall yno;
- (b) pan fo paragraff (4) yn gymwys, caiff fynd i'r mangreoedd eraill hynny ac archwilio unrhyw geffyl neu garcas yno.

(7) Dyma'r rheolaethau—

- (a) rhaid i unrhyw berson sydd â cheffyl neu garcas hysbysedig yn ei feddiant neu o dan ei gyfrifoldeb sicrhau—

infected premises served under regulation 9(8) or 10(7) (as the case may be) is revoked by a veterinary inspector or by virtue of regulation 13(2).

## PART 3

Suspicion and confirmation of African horse sickness

### Scope of Part 3

6. This Part does not apply in relation to slaughterhouses or non-captive horses.

### Initial controls following notification

7.—(1) This regulation applies where the Welsh Ministers receive a notification under regulation 5(1) and a veterinary inspector considers that further investigation relating to the possible presence of African horse sickness virus is necessary.

(2) A veterinary inspector must inform (orally or otherwise) the person who gave the notification that further investigation is necessary.

(3) Where that person has been so informed, the controls in paragraph (7) apply in relation to the premises where the notified horse or carcass (as the case may be) is located.

(4) Where those premises are not the premises where the notified horse is normally kept or, in the case of a notified carcass, the horse before it died was normally kept, a veterinary inspector may also inform (orally or otherwise) the main occupier of those other premises that further investigation is necessary.

(5) Where that main occupier has been so informed, the controls in paragraph (7), other than in sub-paragraph (a)(i), apply in relation to those other premises.

(6) A veterinary inspector—

- (a) must go to the premises where the notified horse or carcass is located and examine that horse or carcass, and may examine any other horse or carcass there;
- (b) where paragraph (4) applies, may go to those other premises and examine any horse or carcass there.

(7) The controls are that—

- (a) any person in possession or charge of a notified horse or carcass must ensure that—

- (i) nad yw'r ceffyl neu'r carcass hysbysedig yn cael ei symud o'r fangre lle y mae wedi ei leoli,
- (ii) nad oes dim cyfarpar na deunydd genetig yn cael ei symud o'r fangre,
- (iii) nad oes unrhyw geffyl neu garcas arall yn cael ei symud o'r fangre nac iddi, ac eithrio y caiff unrhyw geffyl sydd fel arfer yn cael ei gadw yn y fangre ddychwelyd yno; a
- (b) os yw hynny'n ofynnol gan arolygydd milfeddygol ac i'r graddau y mae'n ymarferol gwneud hynny, rhaid i'r prif feddiannydd sicrhau—
  - (i) bod pob ceffyl yn cael ei symud ymaith o unrhyw ran o'r fangre lle y mae'r rhan fwyaf o fectorau yn debygol o fod yn bresennol;
  - (ii) bod ardaloedd a allai fod yn fagwrfeydd fectorau yn cael eu hadnabod, ac y rhoddir ar waith unrhyw fesurau sydd ar gael i reoli fectorau dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

(8) Mae'r rheolaethau a osodir o dan y rheoliad hwn yn parhau i fod yn gymwys—

- (a) hyd oni fydd arolygydd milfeddygol yn cadarnhau (ar lafar neu fel arall) i unrhyw feddiannydd y fangre nad oes amheuaeth fod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol yn y fangre, neu
- (b) hyd oni fydd y fangre'n dod yn fangre dan amheuaeth(1).

### Gosod mesurau pan fo amheuaeth o glefyd

8.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo arolygydd yn amau bod ceffyl neu garcas sydd wedi ei heintio neu a oedd wedi ei heintio â feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol mewn unrhyw fangre neu wedi bod mewn unrhyw fangre (yn dilyn hysbysiad o dan reoliad 5(1) neu fel arall).

(2) Caiff yr arolygydd gyflwyno hysbysiad i'r prif feddiannydd gan ddynodi'r fangre honno yn fangre dan amheuaeth, ac ar yr adeg honno mae'r mesurau sydd yn yr Atodlen yn cael effaith(2).

(3) Rhaid i hysbysiad o'r fath a gyflwynir mewn perthynas â mangre gyswllt bennu bod y fangre yn fangre gyswllt.

- (i) the notified horse or carcass is not moved from the premises where it is located,
- (ii) no equipment or genetic material is moved from the premises,
- (iii) no other horse or carcass is moved from or to the premises, except that any horse normally kept at the premises may return there; and
- (b) if required by a veterinary inspector and to the extent that it is practicable to do so the main occupier must ensure that—
  - (i) all horses are moved away from any part of the premises where most vectors are likely to be present;
  - (ii) areas which may be breeding grounds for vectors are identified and any available vector control measures directed by a veterinary inspector are implemented.

(8) The controls imposed under this regulation continue to apply until—

- (a) a veterinary inspector confirms (orally or otherwise) to any occupier of the premises that the presence of African horse sickness virus on the premises is not suspected, or
- (b) the premises become suspect premises(1).

### Imposing measures on suspicion of disease

8.—(1) This regulation applies where an inspector suspects that a horse or carcass that is or has been infected with African horse sickness virus is or has been on any premises (whether following a notification under regulation 5(1) or otherwise).

(2) The inspector may serve a notice on the main occupier designating those premises as suspect premises, at which point the measures in the Schedule have effect(2).

(3) Such a notice served in relation to contact premises must specify that the premises are contact premises.

(1) Ar yr adeg honno, mae mesurau eraill yn cael effaith: gweler rheoliad 8(2).

(2) Gweler hefyd bŵer Gweinidogion Cymru o dan reoliad 17 i ddatgan parth cyfyngu dros dro ar symud.

(1) At which point other measures have effect: see regulation 8(2).

(2) See also the power of the Welsh Ministers under regulation 17 to declare a temporary movement restriction zone.

(4) Caiff hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (2) ei gwneud yn ofynnol i'r prif feddiannydd godi a chynnal a chadw'r cyfryw arwyddion yn y fangre fel y bo'n ofynnol gan arolygydd milfeddygol.

(5) Pan fo hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan baragraff (2), rhaid i arolygydd milfeddygol—

- (a) i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, asesu mannau sy'n debygol o hwyluso parhad y fectorau, neu roi lle iddynt, a pha mor ymarferol fyddai defnyddio mesurau priodol i reoli fectorau mewn mannau o'r fath;
- (b) cychwyn ymchwiliad epidemiolegol i geisio sefydlu o leiaf—
  - (i) faint o amser y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau fod wedi bodoli mewn ceffylau yn y fangre,
  - (ii) tarddiad y feirws hwnnw,
  - (iii) enw mangre oedd eraill lle y mae ceffylau a allai fod wedi cael eu heintio,
  - (iv) presenoldeb a gwasgariad fectorau,
  - (v) symudiad unrhyw geffyl i'r fangre neu oddi yno, neu unrhyw garcasau a dynnwyd ymaith ohoni, a
  - (vi) y posibilrwydd y gallai ceffylau nad ydynt yn rhai caeth fod yn gyfrannog yn ymlediad y feirws,a pharhau â'r ymchwiliad hyd oni fydd y materion hyn wedi eu sefydlu i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, neu hyd oni ddiystyrir y posibilrwydd fod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol.

#### **Mesurau yn dilyn amheuaeth – mangre ac eithrio mangre gyswllt**

9.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo mangre, ac eithrio mangre gyswllt, wedi ei dynodi yn fangre dan amheuaeth.

(2) Rhaid i arolygydd milfeddygol gymryd pob cam rhesymol i sefydlu a oes feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol ai peidio.

(3) At ddibenion paragraff (2), caiff arolygydd milfeddygol, os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol yn barnu bod angen hynny, gymryd a threfnu i brofi—

- (a) samplau o unrhyw geffyl neu garcas sydd yn y fangre neu wedi bod yn flaenorol yn y fangre,
- (b) samplau amgylcheddol o'r fangre.

(4) Os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi ei fodloni, yn dilyn y camau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) nad yw mwyach yn briodol i'r fangre barhau'n un sydd wedi ei dynodi'n fangre dan

(4) A notice served under paragraph (2) may require the main occupier to erect and maintain such signs on the premises as may be required by a veterinary inspector.

(5) Where a notice has been served under paragraph (2) a veterinary inspector must—

- (a) as far as is reasonably practicable assess places likely to facilitate the survival of the vectors, or to accommodate them, and the practicality of using appropriate vector control measures in such places;
- (b) begin an epidemiological inquiry to try to establish at least—
  - (i) the length of time that African horse sickness virus may have existed in horses on the premises,
  - (ii) the origin of that virus,
  - (iii) the identification of other premises on which there are horses which may have become infected,
  - (iv) the presence and distribution of vectors,
  - (v) the movement of any horse to or from the premises or any carcasses removed from them, and
  - (vi) the possibility that non-captive horses may be involved in the spread of the virus,and continue the inquiry until these matters have been established so far as is practicable or the possible presence of African horse sickness virus has been discounted.

#### **Measures following suspicion – premises other than contact premises**

9.—(1) This regulation applies where premises, other than contact premises, are designated as suspect premises.

(2) A veterinary inspector must take all reasonable steps to establish whether or not African horse sickness virus is present.

(3) For the purposes of paragraph (2), a veterinary inspector may, if the Chief Veterinary Officer considers it necessary, take and have tested—

- (a) samples from any horse or carcass that is, or has previously been, on the premises,
- (b) environmental samples from the premises.

(4) If the Chief Veterinary Officer is satisfied following the steps referred to in paragraph (2) that it is no longer appropriate for the premises to remain

amheuaeth, rhaid i arolygydd milfeddygol ddirymu'r hysbysiad a gyflwynwyd o dan reoliad 8(2).

(5) Pan fo'r hysbysiad hwnnw wedi ei ddirymu, mae'r mesurau sydd yn yr Atodlen yn peidio â chael effaith, ac eithrio at ddibenion paragraff 1(4)(a) o'r Atodlen honno (y ddyletswydd i gadw cofnodion am chwe mis wedi i'r hysbysiad gael ei ddirymu).

(6) Os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi ei fodloni, yn dilyn profion o dan y rheoliad hwn, fod ceffylau serobositif yn y fangre, rhaid i arolygydd milfeddygol barhau i fonitro ceffylau yn y fangre, fel y bo'n briodol, a chaiff gymryd samplau pellach a threfnu iddynt gael eu profi.

(7) Mae paragraff (8) yn gymwys os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi ei fodloni, o ganlyniad i unrhyw brawf a gynhaliwyd o dan y rheoliad hwn neu unrhyw arwyddion clinigol arall yn unrhyw geffyl yn y fangre, fod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol mewn ceffyl neu garcas neu yn y fangre.

(8) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad i'r prif feddiannydd yn datgan bod y fangre yn fangre heintiedig(1).

(9) Pan fo hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan baragraff (8), mae'r mesurau yn yr Atodlen yn parhau i gael effaith.

(10) Caiff yr hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (8) ei gwneud yn ofynnol i'r prif feddiannydd godi a chynnal a chadw'r cyfryw arwyddion yn y fangre fel y bo'n ofynnol gan arolygydd milfeddygol.

(11) Os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol yn barnu bod angen hynny er mwyn lleihau'r risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu, caiff yr hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (8) ei gwneud yn ofynnol i gael mesurau ychwanegol i'r rhai sydd yn yr Atodlen a pharagraff (10).

### **Mesurau yn dilyn amheuaeth – mangre gyswllt**

**10.—**(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo mangre gyswllt wedi ei dynodi'n fangre dan amheuaeth.

(2) Os yw unrhyw geffyl yn y fangre yn dangos arwyddion clinigol o glefyd Affricanaidd y ceffylau yn ystod y cyfnod perthnasol, o ran arolygydd milfeddygol—

- (a) rhaid iddo gymryd samplau ohono a threfnu iddynt gael eu profi, a

designated as suspect premises, a veterinary inspector must revoke the notice served under regulation 8(2).

(5) Where that notice is revoked, the measures in the Schedule cease to have effect, except for the purposes of paragraph 1(4)(a) of that Schedule (duty to keep records for six months following revocation of notice).

(6) If the Chief Veterinary Officer is satisfied following tests under this regulation that there are seropositive horses on the premises a veterinary inspector must continue to monitor as appropriate horses on the premises, and may take further samples and have them tested.

(7) Paragraph (8) applies if the Chief Veterinary Officer is satisfied as a result of any test carried out under this regulation or any clinical signs in any horse on the premises that African horse sickness virus is present in a horse or carcase or on the premises.

(8) Where this paragraph applies, a veterinary inspector must serve a notice on the main occupier declaring the premises to be infected premises(1).

(9) Where a notice has been served under paragraph (8), the measures in the Schedule continue to have effect.

(10) The notice served under paragraph (8) may require the main occupier to erect and maintain such signs on the premises as may be required by a veterinary inspector.

(11) If the Chief Veterinary Officer considers it necessary to reduce the risk of spread of African horse sickness virus, the notice served under paragraph (8) may require measures additional to those in the Schedule and paragraph (10).

### **Measures following suspicion – contact premises**

**10.—**(1) This regulation applies where contact premises are designated as suspect premises.

(2) If any horse on the premises shows clinical signs of African horse sickness during the relevant period, a veterinary inspector—

- (a) must take samples from it and have them tested, and

(1) *Gweler* hefyd bŵer Gweinidogion Cymru o dan reoliad 18 i ddatgan parth rheoli, parth gwarchod a pharth gwyliadwriaeth.

(1) *See also* the power of the Welsh Ministers under regulation 18 to declare a control zone, protection zone and surveillance zone.



- (b) caiff gymryd samplau o unrhyw geffyl arall neu garcas yn y fangre a threfnu iddynt gael eu profi.

(3) Os na fydd unrhyw geffyl yn y fangre yn dangos arwyddion clinigol o glefyd Affricanaidd y ceffylau, o ran arolygydd milfeddygol—

- (a) rhaid iddo fonitro, fel y bo'n briodol, bob ceffyl yn y fangre hyd at ddiwedd y cyfnod perthnasol, a
- (b) caiff gymryd samplau o unrhyw geffyl neu garcas yn y fangre a threfnu iddynt gael eu profi.

(4) Os nad oes unrhyw geffyl yn y fangre wedi dangos arwyddion clinigol o glefyd Affricanaidd y ceffylau ar unrhyw bryd yn ystod y cyfnod perthnasol, a bod y Prif Swyddog Milfeddygol wedi ei fodloni, yn dilyn unrhyw brofion o dan y rheoliad hwn, nad yw mwyach yn briodol i'r fangre barhau i gael ei dynodi'n fangre dan amheuaeth, rhaid i arolygydd milfeddygol ddirymu'r hysbysiad a gyflwynwyd o dan reoliad 8(2).

(5) Pan fo'r hysbysiad hwnnw'n cael ei ddirymu, mae'r mesurau sydd yn yr Atodlen yn peidio â chael effaith, ac eithrio at ddibenion paragraff 1(4)(a) o'r Atodlen honno.

(6) Mae paragraff (7) yn gymwys pan fo'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi ei fodloni, o ganlyniad i—

- (a) unrhyw brawf a wneir o dan y rheoliad hwn,
- (b) unrhyw arwyddion clinigol yn unrhyw geffyl yn y fangre, neu
- (c) unrhyw gyswllt epidemiolegol â mangre heintiedig,

fod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol mewn ceffyl neu garcas yn y fangre.

(7) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad i'r prif feddiannydd yn datgan bod y fangre yn fangre heintiedig(1).

(8) Pan fo hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan baragraff (7), mae'r mesurau yn yr Atodlen yn parhau i gael effaith.

(9) Caiff yr hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (7) ei gwneud yn ofynnol i'r prif feddiannydd godi a chynnal a chadw'r cyfryw arwyddion yn y fangre fel y bo'n ofynnol gan arolygydd milfeddygol.

(10) Os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol yn barnu bod angen hynny er mwyn lleihau'r risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu, caiff yr hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i gael mesurau ychwanegol i'r rhai sydd yn yr Atodlen a pharagraff (9).

- (b) may take samples from any other horse or carcase on the premises and have them tested.

(3) If no horse on the premises shows clinical signs of African horse sickness a veterinary inspector—

- (a) must monitor as appropriate all horses on the premises until the end of the relevant period, and
- (b) may take samples from any horse or carcase on the premises and have them tested.

(4) If no horse on the premises has shown clinical signs of African horse sickness at any time during the relevant period and the Chief Veterinary Officer is satisfied following any tests under this regulation that it is no longer appropriate for the premises to remain designated as suspect premises, a veterinary inspector must revoke the notice served under regulation 8(2).

(5) Where that notice is revoked, the measures in the Schedule cease to have effect, except for the purposes of paragraph 1(4)(a) of that Schedule.

(6) Paragraph (7) applies where the Chief Veterinary Officer is satisfied as a result of—

- (a) any test carried out under this regulation,
- (b) any clinical signs in any horse on the premises, or
- (c) any epidemiological connection to infected premises,

that African horse sickness virus is present in a horse or carcase or on the premises.

(7) Where this paragraph applies, a veterinary inspector must serve a notice on the main occupier declaring the premises to be infected premises(1).

(8) Where a notice has been served under paragraph (7), the measures in the Schedule continue to have effect.

(9) The notice served under paragraph (7) may require the main occupier to erect and maintain such signs on the premises as may be required by a veterinary inspector.

(10) If the Chief Veterinary Officer considers it necessary to reduce the risk of spread of African horse sickness virus the notice may require measures additional to those in the Schedule and paragraph (9).

(1) *Gweler* hefyd bŵer Gweinidogion Cymru o dan reoliad 18 i ddatgan parth rheoli, parth gwarchod a pharth gwyliadwriaeth.

(1) *See also* the power of the Welsh Ministers under regulation 18 to declare a control zone, protection zone and surveillance zone.

(11) Yn y rheoliad hwn, “y cyfnod perthnasol” (“*the relevant period*”) yw’r cyfnod y mae’r Prif Swyddog Milfeddygol yn penderfynu y mae ei angen ar gyfer sefydlu a oes clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol mewn ceffyl neu garcas yn y fangre ai peidio.

#### **Pwerau i atal rhag dod â cheffylau i fangreoedd eraill**

**11.—**(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys pan fo mangre yn fangre heintiedig a bod y Prif Swyddog Milfeddygol yn barnu ei bod yn briodol atal rhag dod â cheffylau i fangreoedd eraill oherwydd y risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu.

(2) Caiff arolygydd gyflwyno hysbysiad i brif feddiannydd y mangreoedd eraill yn gosod y gwaharddiad sydd ym mharagraff (3).

(3) Y gwaharddiad yw na chaiff unrhyw berson symud unrhyw geffyl i’r fangre am y cyfnod hwnnw a fo wedi ei bennu yn yr hysbysiad, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddir gan arolygydd milfeddygol.

(4) Caiff yr hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i’r prif feddiannydd godi a chynnal a chadw’r cyfryw arwyddion yn y fangre fel y bo’n ofynnol gan arolygydd milfeddygol.

(5) Rhaid i arolygydd milfeddygol ddirymu unrhyw hysbysiad a gyflwynwyd o dan baragraff (2) os yw wedi ei fodloni, ar ôl ystyried y risg epidemiolegol, nad oes angen y gwaharddiad mwyach i leihau’r risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu.

#### **Lladd ceffylau mewn mangre heintiedig a mangre gyswllt a chael gwared ar garcasau**

**12.—**(1) Mae paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â cheffylau—

- (a) mewn mangre dan amheuaeth sy’n fangre gyswllt,
- (b) mewn mangre heintiedig.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drefnu i ladd pob ceffyl sydd wedi ei heintio â feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau neu sy’n dangos arwyddion clinigol o glefyd Affricanaidd y ceffylau.

(3) Os yw unrhyw geffyl yn cael ei ladd o dan baragraff (2), o ran Gweinidogion Cymru—

- (a) rhaid iddynt drefnu i gael gwared ar ei garcas, a
- (b) cânt drefnu i gael gwared ar garcas unrhyw geffyl arall sydd wedi marw yn y fangre honno.

(11) In this regulation, “the relevant period” (“*y cyfnod perthnasol*”) is the period determined by the Chief Veterinary Officer to be necessary for establishing whether or not African horse sickness is present in a horse or carcase on the premises.

#### **Powers to prevent horses from being brought onto other premises**

**11.—**(1) This regulation applies where premises are infected premises and the Chief Veterinary Officer considers that due to the risk of African horse sickness virus spreading it is appropriate to prevent horses from being brought onto other premises.

(2) An inspector may serve a notice on the main occupier of those other premises imposing the prohibition in paragraph (3).

(3) The prohibition is that no person may move any horse onto the premises for such period as may be specified in the notice, except under the authority of a licence granted by a veterinary inspector.

(4) The notice may require the main occupier to erect and maintain such signs on the premises as may be required by a veterinary inspector.

(5) A veterinary inspector must revoke any notice served under paragraph (2) if satisfied, having regard to the epidemiological risk, that the prohibition is no longer necessary to reduce the risk of the spread of African horse sickness virus.

#### **Killing horses on infected premises and contact premises and disposal of carcasses**

**12.—**(1) Paragraph (2) applies in relation to horses—

- (a) on suspect premises that are contact premises,
- (b) on infected premises.

(2) The Welsh Ministers may arrange for the killing of all horses which are infected with African horse sickness virus or which present clinical signs of African horse sickness.

(3) If any horse is killed under paragraph (2) the Welsh Ministers—

- (a) must arrange for the disposal of its carcase, and
- (b) may arrange for the disposal of the carcase of any other horse that has died on those premises.



(4) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw broses o waredu o'r fath yn cael ei chynnal mewn ffordd sy'n osgoi'r risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu.

#### **Dirymu hysbysiadau sy'n datgan bod mangre yn fangre heintiedig**

**13.—**(1) Rhaid i arolygydd milfeddygol beidio â dirymu hysbysiad sy'n datgan bod mangre yn fangre heintiedig oni bai fod y Prif Swyddog Milfeddygol wedi ei fodloni mai bach iawn yw'r risg o heintiad pellach o'r fangre honno.

(2) Os nad oes arolygydd milfeddygol wedi dirymu'r hysbysiad yn gynharach, mae hysbysiad sy'n datgan bod mangre yn fangre heintiedig yn cael ei ddirymu pan fo'r fangre y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi yn peidio â bod o fewn unrhyw Barth sydd wedi ei ddatgan o dan Ran 6.

(3) Pan fo hysbysiad sy'n datgan bod mangre yn fangre heintiedig yn cael ei ddirymu gan arolygydd milfeddygol neu yn rhinwedd paragraff (2), mae'r mesurau sydd yn yr Atodlen yn peidio â chael effaith, ac eithrio at ddibenion paragraff 1(4)(a) o'r Atodlen honno.

## **RHAN 4**

### **Lladd-dai**

#### **Gosod rheolaethau cychwynnol mewn lladd-dai**

**14.—**(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan fo—

(i) Gweinidogion Cymru wedi cael eu hysbysu o dan reoliad 5(1) fod amheuaeth fod ceffyl neu garcas mewn lladd-dy wedi ei heintio â feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau, a

(ii) arolygydd milfeddygol yn barnu bod angen ymchwilio rhagor i'r posibilrwydd fod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol; neu

(b) pan fo arolygydd milfeddygol, am unrhyw reswm arall, yn barnu bod angen ymchwilio rhagor i'r posibilrwydd fod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol mewn lladd-dy.

(2) Pan fo paragraff (1)(a) yn gymwys, rhaid i arolygydd milfeddygol roi gwybod (ar lafar neu fel arall) i'r person a roddodd yr hysbysiad fod angen ymchwilio rhagor, ac yna bydd y rheolaethau sydd ym mharagraff (5) yn gymwys.

(4) The Welsh Ministers must ensure that any such disposal is carried out in such a way as to avoid the risk of spread of African horse sickness virus.

#### **Revocation of notices declaring premises to be infected premises**

**13.—**(1) A veterinary inspector must not revoke a notice declaring premises to be infected premises unless the Chief Veterinary Officer is satisfied that there is minimal risk of further infection from those premises.

(2) If not earlier revoked by a veterinary inspector, a notice declaring premises to be infected premises is revoked when the premises to which the notice relates cease to be within any zone declared under Part 6.

(3) Where a notice declaring premises to be infected premises is revoked by a veterinary inspector or by virtue of paragraph (2), the measures in the Schedule cease to have effect, except for the purposes of paragraph 1(4)(a) of that Schedule.

## **PART 4**

### **Slaughterhouses**

#### **Imposition of initial controls at slaughterhouses**

**14.—**(1) This regulation applies—

(a) where—

(i) the Welsh Ministers have been notified under regulation 5(1) that it is suspected that a horse or carcase at a slaughterhouse is infected with African horse sickness virus, and

(ii) a veterinary inspector considers that further investigation relating to the possible presence of African horse sickness virus is necessary; or

(b) where for any other reason a veterinary inspector considers that further investigation relating to the possible presence of African horse sickness virus at a slaughterhouse is necessary.

(2) Where paragraph (1)(a) applies, a veterinary inspector must inform (orally or otherwise) the person who gave the notification that further investigation is necessary, and the controls in paragraph (5) then apply.

(3) Rhaid i arolygydd milfeddygol fynd i'r lladd-dy ac archwilio'r ceffyl neu'r carcass hysbysedig, a chaiff archwilio unrhyw geffyl neu garcas arall yno y mae'r arolygydd milfeddygol yn barnu sy'n briodol.

(4) Pan fo paragraff (1)(b) yn gymwys, caiff arolygydd milfeddygol, drwy gyflwyno hysbysiad i'r person sy'n gyfrifol am y lladd-dy, osod y rheolaethau sydd ym mharagraff (5).

(5) Dyma'r rheolaethau, sef bod yn rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y lladd-dy sicrhau—

- (a) nad oes yr un ceffyl na charcas yn cael ei symud o'r lladd-dy,
- (b) nad yw unrhyw geffyl hysbysedig ac unrhyw geffyl arall o'r un fangre â'r ceffyl hysbysedig yn cael ei gigydda, oni chaiff ei awdurdodi i wneud hynny gan arolygydd milfeddygol, ac
- (c) os yw unrhyw geffyl hysbysedig neu unrhyw geffyl o'r un fangre â cheffyl hysbysedig eisoes wedi cael ei gigydda, neu'n cael ei gigydda wedi hynny, neu wedi marw, fod ei garcas yn cael ei nodi'n benodol a'i gadw yn y lladd-dy hyd oni fydd arolygydd milfeddygol wedi ei archwilio ac wedi cymryd samplau os yw'n barnu bod angen hynny.

### Camau gweithredu yn dilyn archwiliad

**15.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo arolygydd milfeddygol wedi gweithredu o dan reoliad 14(3).

(2) Os yw arolygydd milfeddygol wedi ei fodloni nad oes feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bodoli mewn unrhyw geffyl neu garcas yn y lladd-dy, rhaid i arolygydd milfeddygol gadarnhau hyn (ar lafar neu fel arall) i'r person sydd â chyfrifoldeb am y lladd-dy.

(3) Os na ellir diystyru presenoldeb feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau, caiff arolygydd milfeddygol—

- (a) drwy gyflwyno hysbysiad i'r person sy'n gyfrifol am y lladd-dy, amrywio'r rheolaethau sy'n gymwys o dan reoliad 14(2) neu a osodwyd drwy hysbysiad o dan reoliad 14(4),
- (b) cymryd samplau a'u profi er mwyn sefydlu a yw'r feirws hwnnw yn bresennol yn y lladd-dy(1).

(3) A veterinary inspector must go to the slaughterhouse and examine the notified horse or carcass, and may examine any other horse or carcass there as the veterinary inspector considers appropriate.

(4) Where paragraph (1)(b) applies, a veterinary inspector may by notice served on the person in charge of the slaughterhouse impose the controls in paragraph (5).

(5) The controls are that the person in charge of the slaughterhouse must ensure that—

- (a) no horse or carcass is moved from the slaughterhouse,
- (b) any notified horse and any other horse from the same premises as the notified horse is not slaughtered unless authorised to do so by a veterinary inspector, and
- (c) if any notified horse or any horse from the same premises as a notified horse has already been, or is subsequently, slaughtered or has died, its carcass is specifically identified and retained at the slaughterhouse until a veterinary inspector has examined it, and taken samples if considered necessary.

### Action following examination

**15.**—(1) This regulation applies where a veterinary inspector has acted under regulation 14(3).

(2) If a veterinary inspector is satisfied that African horse sickness virus does not exist in any horse or carcass at the slaughterhouse a veterinary inspector must confirm this (orally or otherwise) to the person in charge of the slaughterhouse.

(3) If the presence of African horse sickness virus cannot be ruled out, a veterinary inspector—

- (a) may by notice served on the person in charge of the slaughterhouse vary the controls applicable under regulation 14(2) or imposed by notice under regulation 14(4),
- (b) may take samples and test them to establish the presence of that virus at the slaughterhouse(1).

(1) *Gweler* hefyd bŵer Gweinidogion Cymru o dan reoliad 17 i ddatgan parth cyfyngu dros dro ar symud.

(1) *See also* the power of the Welsh Ministers under regulation 17 to declare a temporary movement restriction zone.

(4) Os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi ei fodloni bod profion a wnaed o dan y rheoliad hwn yn dangos nad yw feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol yn y lladd-dy, rhaid i arolygydd milfeddygol gadarnhau hyn (ar lafar neu fel arall) i'r person sy'n gyfrifol am y lladd-dy.

(5) Mae paragraff (6) yn gymwys pan fo'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi ei fodloni, o ganlyniad i—

- (a) unrhyw brawf a wneir o dan y rheoliad hwn, neu
- (b) unrhyw arwyddion clinigol yn unrhyw geffyl yn y lladd-dy, neu yn unrhyw fangre arall lle y bu unrhyw geffyl yn y lladd-dy yn ddiweddar,

fod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol mewn ceffyl neu garcas yn y lladd-dy.

(6) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod carcass pob ceffyl heintiedig yn cael ei waredu mewn ffordd sy'n osgoi'r risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu(1).

(7) Pan fo cadarnhad wedi ei roi o dan baragraff (2) neu (4), neu ar ôl cael gwared ar garcasau o dan baragraff (6)—

- (a) mae unrhyw reolaethau sy'n gymwys o dan reoliad 14(2) (ac, os yw'n gymwys, fel y'u hamrywyr o dan baragraff (3)(a)) yn peidio â chael effaith,
- (b) mae unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan reoliad 14(4) (ac, os yw'n gymwys, fel y'u hamrywyr o dan baragraff (3)(a)) wedi ei ddirymu.

(4) If the Chief Veterinary Officer is satisfied that tests carried out under this regulation demonstrate that African horse sickness virus is not present in the slaughterhouse a veterinary inspector must confirm this (orally or otherwise) to the person in charge of the slaughterhouse.

(5) Paragraph (6) applies where the Chief Veterinary Officer is satisfied as a result of—

- (a) any test carried out under this regulation, or
- (b) any clinical signs in any horse at the slaughterhouse or any other premises where any horse at the slaughterhouse has recently been,

that African horse sickness virus is present in a horse or carcass at the slaughterhouse.

(6) Where this paragraph applies, the Welsh Ministers must ensure that all carcasses of infected horses are disposed of in such a way as to avoid the risk of spread of African horse sickness virus(1).

(7) Where confirmation is given under paragraph (2) or (4), or following the disposal of carcasses under paragraph (6)—

- (a) any controls applicable under regulation 14(2) (and, where applicable, as varied under paragraph (3)(a)) cease to have effect,
- (b) any notice served under regulation 14(4) (and, where applicable, as varied under paragraph (3)(a)) is revoked.

## RHAN 5

### Ceffylau nad ydynt yn rhai caeth

#### Amheuaeth ynghylch ceffylau nad ydynt yn rhai caeth

**16.—**(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo arolygydd milfeddygol yn amau bod ceffyl nad yw'n gaeth wedi ei heintio â feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau.

(2) Rhaid i arolygydd milfeddygol gymryd pob cam rhesymol i sefydlu a yw'r amheuaeth honno yn gywir ai peidio.

## PART 5

### Non-captive horses

#### Suspicion relating to non-captive horses

**16.—**(1) This regulation applies where a veterinary inspector suspects that a non-captive horse may be infected with African horse sickness virus.

(2) A veterinary inspector must take all reasonable steps to establish whether or not that suspicion is correct.

(1) *Gweler* hefyd bŵer Gweinidogion Cymru o dan reoliad 18 i ddatgan parth rheoli, parth gwarchod a pharth gwyliadwriaeth.

(1) *See also* the power of the Welsh Ministers under regulation 18 to declare a control zone, protection zone and surveillance zone.

(3) Pan fo arolygydd milfeddygol yn dod i'r casgliad fod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn debygol o fod yn bresennol mewn ceffyl o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru gymryd y camau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn briodol (a gaiff gynnwys datgan parth haint o dan reoliad 19) er mwyn lleihau'r risg y gallai'r feirws hwnnw ymledu i geffylau eraill.

(4) At ddibenion paragraff (3), caiff arolygydd milfeddygol, drwy gyflwyno hysbysiad i brif feddiannydd y fangre, osod cyfyngiadau ar symud ceffylau neu osod y mesurau eraill hynny y mae'r Prif Swyddog Milfeddygol yn barnu eu bod yn angenrheidiol mewn perthynas â'r fangre honno.

(5) Nid oes angen cymryd y camau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) neu (3) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw cymryd y camau hynny yn debygol o leihau'r risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu.

(6) Caiff arolygydd milfeddygol, a phan fônt yn gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol, arolygydd, un arall o swyddogion Gweinidogion Cymru, neu unrhyw berson arall sydd â'r arbenigedd angenrheidiol, fynd i mewn i unrhyw fangre (ac eithrio unrhyw fangre a ddefnyddir yn llwyr neu yn bennaf fel annedd breifat)—

- (a) i gadw gwyliadwriaeth ar geffylau nad ydynt yn rhai caeth;
- (b) i'w dal a'u cadw;
- (c) i'w brechu;
- (d) i gymryd samplau ohonynt;
- (e) i'w lladd os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi ei fodloni fod angen hynny er mwyn rheoli clefyd Affricanaidd y ceffylau, ac yn benodol—
  - (i) os nad yw'n rhesymol ymarferol cymryd samplau ohonynt heb eu lladd;
  - (ii) os nad yw'n rhesymol ymarferol eu cadw wrth ddisgwyl canlyniadau unrhyw brofion neu samplau; neu
  - (iii) os ydynt yn lledaenu neu y gallent ledaenu feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau neu dan risg o ddal feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau.

(7) Caiff ynad heddwch, drwy warant wedi ei llofnodi, ganiatáu i arolygydd milfeddygol a pherson y cyfeirir ato ym mharagraff (6) pan fo'n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol, fynd i mewn i unrhyw fangre, a hynny gan ddefnyddio grym rhesymol os oes angen, os yw'r ynad wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig a roddir ar lw—

(3) Where a veterinary inspector concludes that African horse sickness virus is likely to be present in such a horse the Welsh Ministers must take such steps as the Welsh Ministers consider appropriate (which may include the declaration of an infection zone under regulation 19) to reduce the risk of that virus spreading to other horses.

(4) For the purposes of paragraph (3), a veterinary inspector may by notice served on the main occupier of premises impose restrictions on the movement of horses or impose such other measures in relation to those premises that the Chief Veterinary Officer considers necessary.

(5) The steps referred to in paragraph (2) or (3) need not be taken if the Welsh Ministers are satisfied that taking those steps is not likely to reduce the risk of African horse sickness virus spreading.

(6) A veterinary inspector and, when acting under the direction of a veterinary inspector, an inspector, another officer of the Welsh Ministers or any other person with the necessary expertise may enter any premises (except any premises used wholly or mainly as a private dwelling house) to—

- (a) undertake surveillance of non-captive horses;
- (b) capture and detain them;
- (c) vaccinate them;
- (d) take samples from them;
- (e) kill them if the Chief Veterinary Officer is satisfied that it is necessary for the control of African horse sickness, and in particular if—
  - (i) it is not reasonably practicable to take samples from them without killing them;
  - (ii) it is not reasonably practicable to detain them pending the results of any testing or sampling; or
  - (iii) they are spreading or may spread African horse sickness virus or are at risk of acquiring African horse sickness virus.

(7) A justice of the peace may by signed warrant permit a veterinary inspector and, when acting under the direction of a veterinary inspector, a person referred to in paragraph (6), to enter any premises, if necessary by reasonable force, if the justice, on sworn information in writing, is satisfied—

- (a) bod sail resymol i fynd i mewn i'r fangre honno at ddiben gweithredu neu orfodi'r Rheoliadau hyn; a
- (b) bod unrhyw un neu ragor o'r amodau ym mharagraff (8) wedi eu bodloni.

(8) Dyma'r amodau—

- (a) bod mynediad i'r fangre wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod, a bod y meddiannydd wedi cael hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant;
- (b) y byddai gofyn am gael mynediad i'r fangre, neu roi hysbysiad o'r fath, yn tanseilio'r diben o fynd i mewn;
- (c) bod angen mynediad ar fyrder; neu
- (d) bod y fangre heb ei meddiannu neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro.

(9) Mae gwarant yn ddilys am dri mis.

(10) Rhaid i berson sy'n mynd i mewn i unrhyw fangre nad yw wedi ei meddiannu, neu lle y mae'r meddiannydd yn absennol ohoni dros dro, ei gadael wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad heb awdurdod ag yr oedd cyn iddo fynd i mewn iddi.

- (a) that there are reasonable grounds to enter those premises for the purpose of executing or enforcing these Regulations; and
- (b) that any of the conditions in paragraph (8) are met.

(8) The conditions are—

- (a) entry to the premises has been, or is likely to be, refused, and notice of the intention to apply for a warrant has been given to the occupier;
- (b) asking for admission to the premises, or giving such a notice, would defeat the object of the entry;
- (c) entry is required urgently; or
- (d) the premises are unoccupied or the occupier is temporarily absent.

(9) A warrant is valid for three months.

(10) A person entering any premises which are unoccupied or from which the occupier is temporarily absent must leave them as effectively secured against unauthorised entry as they were before entry.

## RHAN 6

### Rheolaethau ardal

#### Parth cyfyngu dros dro ar symud

17.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo mangre yn fangre dan amheuaeth neu pan fo arolygydd milfeddygol wedi cymryd samplau o dan reoliad 15(3) o geffyl neu garcas mewn lladd-dy.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn barnu bod angen lleihau'r risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu, caniateir i barth cyfyngu dros dro ar symud gael ei ddatgan gan Weinidogion Cymru o amgylch y fangre dan amheuaeth neu'r lladd-dy (yn ôl y digwydd).

(3) Rhaid i'r parth cyfyngu dros dro ar symud fod o'r maint hwnnw y mae Gweinidogion Cymru yn barnu bod ei angen gan roi sylw i'r risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu.

(4) O fewn y parth cyfyngu dros dro ar symud ni chaiff neb symud unrhyw geffyl na charcas i'r fangre nac ohoni, nac unrhyw gyfarpar na deunydd genetig o'r fangre, ac eithrio dan awdurdod trwydded a roddir gan arolygydd milfeddygol.

## PART 6

### Area controls

#### Temporary movement restriction zone

17.—(1) This regulation applies where premises are suspect premises or where a veterinary inspector has taken samples under regulation 15(3) from a horse or carcase at a slaughterhouse.

(2) Where the Welsh Ministers consider it necessary to reduce the risk of spread of African horse sickness virus, a temporary movement restriction zone may be declared by the Welsh Ministers around the suspect premises or the slaughterhouse (as the case may be).

(3) The temporary movement restriction zone must be of such size as the Welsh Ministers consider necessary having regard to the risk of spread of African horse sickness virus.

(4) Within the temporary movement restriction zone no person may move any horse or carcase to or from premises or any equipment or genetic material off premises, except under the authority of a licence granted by a veterinary inspector.



(5) Os yw Gweinidogion Cymru yn barnu bod angen lleihau'r risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu, caiff Gweinidogion Cymru osod unrhyw fesurau eraill wrth ddatgan y parth cyfyngu dros dro ar symud.

#### **Parth rheolaeth, parth gwarchod a pharth gwyliadwriaeth**

**18.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo mangre yn fangre heintiedig neu pan fo profion o dan reoliad 15 yn dangos bod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol mewn ceffyl neu garcas mewn lladd-dy.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddatgan parth rheolaeth, a hefyd cânt ddatgan parth gwarchod a pharth gwyliadwriaeth o amgylch y fangre heintiedig neu'r lladd-dy (yn ôl y digwydd).

(3) Rhaid i'r parth rheolaeth fod â radiws sydd o leiaf yn 20 cilometr, rhaid i'r parth gwarchod fod â radiws sydd o leiaf yn 100 cilometr a rhaid i'r parth gwyliadwriaeth fod â radiws sydd o leiaf yn 150 o gilometrau, gyda'r rhan o'r fangre y mae Gweinidogion Cymru yn barnu mai dyma'r mwyaf priodol ar gyfer rheoli clefydau yn ganol i bob un.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau o fewn y parthau hynny—

- (a) bod mangreoedd sy'n cynnwys ceffylau yn cael eu hadnabod i'r graddau ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol a heb ddargyfeirio adnoddau'n ormodol oddi wrth y gwaith o atal y clefyd rhag ymledu,
- (b) bod arolygydd milfeddygol yn ymweld mewn ffordd systematig dan gyfarwyddyd y Prif Swyddog Milfeddygol ag unrhyw fangre hysbysedig, a—
  - (i) yn arolygu ac yn archwilio'r ceffylau yn ôl yr angen; a
  - (ii) yn casglu ac yn profi'r samplau hynny a fernir yn angenrheidiol gan y Prif Swyddog Milfeddygol.

(5) Mae'r Atodlen yn nodi mesurau sy'n gymwys mewn perthynas â mangreoedd mewn parth rheolaeth.

(6) Pan fo'r parth rheolaeth yn cael ei ddirymu, mae'r mesurau sydd yn yr Atodlen yn peidio â chael effaith, ac eithrio at ddibenion paragraff 1(4)(a) o'r Atodlen honno.

(7) Ni chaiff neb symud unrhyw geffyl, nac unrhyw semen, ofwm nac embryo ceffyl—

- (a) allan o barth gwarchod, na
- (b) allan o barth gwyliadwriaeth i ardal y tu allan i unrhyw barth,

(5) If the Welsh Ministers consider it necessary to reduce the risk of spread of African horse sickness virus, the Welsh Ministers may in the declaration of the temporary movement restriction zone impose any other measures.

#### **Control zone, protection zone and surveillance zone**

**18.**—(1) This regulation applies where premises are infected premises or where tests under regulation 15 indicate the existence of African horse sickness virus in a horse or carcase at a slaughterhouse.

(2) The Welsh Ministers may declare a control zone, and in addition may declare a protection zone and surveillance zone, around the infected premises or the slaughterhouse (as the case may be).

(3) The control zone must have a radius of at least 20 kilometres, the protection zone must have a radius of at least 100 kilometres and the surveillance zone must have a radius of at least 150 kilometres, each centred on the part of the premises that the Welsh Ministers consider most appropriate for disease control.

(4) The Welsh Ministers must ensure that within those zones—

- (a) premises that contain horses are identified as far as is reasonably practicable and without unduly diverting resources from preventing the spread of disease,
- (b) a veterinary inspector visits in a systematic way as directed by the Chief Veterinary Officer any such identified premises, and—
  - (i) inspects and as necessary examines the horses; and
  - (ii) collects and tests such samples as the Chief Veterinary Officer considers necessary.

(5) The Schedule sets out measures that apply in relation to premises in a control zone.

(6) When the control zone is revoked, the measures in the Schedule cease to have effect, except for the purposes of paragraph 1(4)(a) of that Schedule.

(7) No person may move any horse, or any semen, ovum or embryo of a horse—

- (a) out of a protection zone, or
- (b) out of a surveillance zone to an area outside any zone,

ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddir gan arolygydd milfeddygol.

(8) Ni chaiff neb symud, o fangre sydd o fewn parth gwarchod neu barth gwyliadwriaeth—

- (a) unrhyw asyn, donci, sebra, mul neu groesiad arall o'r rhain ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddir gan arolygydd milfeddygol;
- (b) unrhyw geffyl arall sy'n dangos arwyddion clinigol o glefyd Affricanaidd y ceffylau ar ddiwrnod y symud arfaethedig.

(9) Caiff Gweinidogion Cymru ddatgan bod unrhyw fesur arall, a fernir yn angenrheidiol i leihau'r risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu, yn gymwys mewn perthynas â'r cyfan neu unrhyw ran o'r parth rheolaeth, y parth gwarchod neu'r parth gwyliadwriaeth.

### **Parthau haint**

**19.—**(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo arolygydd milfeddygol yn dod i'r casgliad fod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn debygol o fod yn bresennol mewn ceffyl nad yw'n un caeth.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddatgan parth haint o'r maint hwnnw a fernir yn angenrheidiol gan Weinidogion Cymru er mwyn lleihau'r risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ddatgan—

- (a) cyfyngiadau ar symud ceffylau i'r parth haint neu ohono;
- (b) bod unrhyw fesur arall, a fernir yn angenrheidiol i leihau'r risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu, yn gymwys mewn perthynas â'r cyfan neu unrhyw ran o'r parth haint.

**Datgan parthau lle y mae clefyd Affricanaidd y ceffylau yn cael ei amau neu wedi ei gadarnhau y tu allan i Gymru**

**20.—**(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

- (a) pan fo presenoldeb feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn cael ei amau neu wedi ei gadarnhau'n swyddogol at ddibenion Cyfarwydddeb y Cyngor 92/35/EEC, sy'n gosod rheolau a mesurau rheoli i drechu clefyd Affricanaidd y ceffylau<sup>(1)</sup> y tu allan i Gymru, a
- (b) pan fo Gweinidogion Cymru yn barnu bod risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu i Gymru.

except under the authority of a licence granted by a veterinary inspector.

(8) No person may move from premises within a protection zone or a surveillance zone—

- (a) any ass, donkey, zebra, mule or other hybrid of these except under the authority of a licence granted by a veterinary inspector;
- (b) any other horse that shows clinical signs of African horse sickness on the day of the proposed move.

(9) The Welsh Ministers may declare that any other measure considered necessary to reduce the risk of spread of African horse sickness virus applies in respect of the whole or any part of the control zone, protection zone or surveillance zone.

### **Infection zones**

**19.—**(1) This regulation applies where a veterinary inspector concludes that African horse sickness virus is likely to be present in a non-captive horse.

(2) The Welsh Ministers may declare an infection zone of such size as the Welsh Ministers consider necessary to reduce the risk of spread of African horse sickness virus.

(3) The Welsh Ministers may declare—

- (a) restrictions on the movement of horses into or out of the infection zone;
- (b) that any other measure considered necessary to reduce the risk of spread of African horse sickness virus applies in respect of the whole or any part of the infection zone.

**Declaration of zones where African horse sickness suspected or confirmed outside Wales**

**20.—**(1) This regulation applies where—

- (a) the presence of African horse sickness virus is suspected or officially confirmed for the purposes of Council Directive 92/35/EEC laying down control rules and measures to combat African horse sickness<sup>(1)</sup> outside Wales, and
- (b) the Welsh Ministers consider that there is a risk of spread of African horse sickness virus to Wales.

(1) OJ L Rhif 157, 10.6.1992 t 19.

(1) OJ L No 157, 10.6.1992 p 19.



(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddatgan, yng Nghymru, unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

- (a) parth cyfyngu dros dro ar symud;
- (b) parth rheolaeth;
- (c) parth gwarchod;
- (d) parth gwyliadwriaeth;
- (e) parth haint.

(3) Rhaid i unrhyw barth a ddatgenir o dan y rheoliad hwn fod o'r maint hwnnw a fernir yn angenrheidiol gan Weinidogion Cymru i leihau'r risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu.

(4) Mae rheoliadau 17(4) a (5), 18(5) i (9) a 19(3) yn gymwys i unrhyw barth a ddatgenir o dan y rheoliad hwn fel petai'n barth a ddatgenir o dan reoliad 17, 18 neu 19 (fel y bo'n gymwys).

### **Datgan parthau**

**21.**—(1) O ran datgan parth o dan y Rheoliadau hyn—

- (a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;
- (b) rhaid iddo ddynodi hyd a lled y parth a ddatgenir;
- (c) caniateir ei ddiwygio neu ei ddirymu gan ddatganiad pellach unrhyw bryd.

(2) Oni bai fod Gweinidogion Cymru yn datgan yn wahanol wrth wneud unrhyw ddatganiad ynghylch parth, caniateir cwblhau unrhyw symudiad sydd wedi ei wahardd ond sydd eisoes wedi dechrau pan ddaw datganiad o'r fath i rym.

(3) Rhaid i unrhyw berson y gosodir gwaharddiad neu fesur arall arno yn rhinwedd datganiad o dan reoliad 17(5), 18(9), neu 19(3) gydymffurfio ag ef.

(4) Wrth benderfynu diwygio neu ddirymu unrhyw ddatganiad ynghylch parth, rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth i'r sefyllfa epidemiolegol a'r mesurau sy'n angenrheidiol i reoli lledaeniad feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau.

### **Mangreoddd sy'n pontio parthau**

**22.**—(1) Mae mangre sydd yn rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth cyfyngu dros dro ar symud a ddatganwyd o dan reoliad 17 neu 20 yn cael ei thrin fel petai y tu mewn i'r parth cyfyngu dros dro ar symud.

(2) Mae mangre sydd yn rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth rheolaeth a ddatgenir o dan reoliad 18 neu 20 yn cael ei thrin fel petai y tu mewn i'r parth rheolaeth.

(2) The Welsh Ministers may declare in Wales any of the following—

- (a) a temporary movement restriction zone;
- (b) a control zone;
- (c) a protection zone;
- (d) a surveillance zone;
- (e) an infection zone.

(3) Any zone declared under this regulation must be of such size as the Welsh Ministers consider necessary to reduce the risk of spread of African horse sickness virus.

(4) Regulations 17(4) and (5), 18(5) to (9) and 19(3) apply to any zone declared under this regulation as if it were a zone declared under regulation 17, 18 or 19 (as applicable).

### **Declaration of zones**

**21.**—(1) A declaration of a zone under these Regulations—

- (a) must be in writing;
- (b) must designate the extent of the zone being declared;
- (c) may be amended or revoked by further declaration at any time.

(2) Unless the Welsh Ministers state otherwise in any declaration of a zone, any movement which is prohibited but has already started when such a declaration comes into force may be completed.

(3) Any person on whom a restriction or other measure is imposed by virtue of a declaration under regulation 17(5), 18(9), or 19(3) must comply with it.

(4) In deciding to amend or revoke any declaration of a zone, the Welsh Ministers must have regard to the epidemiological situation and the measures necessary to control the spread of African horse sickness virus.

### **Premises straddling zones**

**22.**—(1) Premises partly inside and partly outside a temporary movement restriction zone declared under regulation 17 or 20 are treated as being inside the temporary movement restriction zone.

(2) Premises partly inside and partly outside a control zone declared under regulation 18 or 20 are treated as being inside the control zone.

(3) Mae mangre sydd yn rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth gwarchod a ddatgenir o dan reoliad 18 neu 20 mewn ardal ac eithrio parth rheolaeth yn cael ei thrin fel petai y tu mewn i'r parth gwarchod.

(4) Mae mangre sydd yn rhannol y tu mewn i barth gwyliadwriaeth a ddatgenir o dan reoliad 18 neu 20 ac sy'n rhannol mewn ardal ac eithrio parth gwarchod yn cael ei thrin fel petai y tu mewn i'r parth gwyliadwriaeth.

(5) Mae mangre sydd yn rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth haint a ddatgenir o dan reoliad 19 neu 20 yn cael ei thrin fel petai y tu mewn i'r parth haint.

### **Cyhoeddusrwydd**

**23.** Rhaid i Weinidogion Cymru roi cyhoeddusrwydd i'r canlynol—

- (a) hyd a lled unrhyw barth a ddatgenir o dan y Rheoliadau hyn;
- (b) natur y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n ymwneud â'r parth hwnnw; a
- (c) dyddiadau datgan a diweddu'r parth hwnnw.

## **RHAN 7**

### **Brechu**

#### **Gwahardd brechu ac eithrio mewn rhai achosion penodol**

**24.** Ni chaiff neb frechu ceffyl rhag clefyd Affricanaidd y ceffylau ac eithrio yn unol â'r Rheoliadau hyn neu o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan arolygydd milfeddygol.

#### **Brechu gorfodol**

**25.—**(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddatgan parth brechu, ac eithrio mewn parth gwyliadwriaeth.

(2) Pan fo parth brechu wedi ei ddatgan, rhaid i feddiannydd unrhyw fangre o fewn y parth hwnnw sicrhau bod y ceffylau yn ei fangre yn cael eu brechu yn unol â'r datganiad hwnnw, ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraff (4).

(3) Caiff mangre sydd yn rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth brechu ei thrin fel petai y tu mewn i'r parth hwnnw.

(3) Premises partly inside and partly outside a protection zone declared under regulation 18 or 20 in an area other than in a control zone are treated as being inside the protection zone.

(4) Premises partly inside a surveillance zone declared under regulation 18 or 20 and partly in an area other than a protection zone are treated as being inside the surveillance zone.

(5) Premises partly inside and partly outside an infection zone declared under regulation 19 or 20 are treated as being inside the infection zone.

### **Publicity**

**23.** The Welsh Ministers must publicise—

- (a) the extent of any zone declared under these Regulations;
- (b) the nature of the restrictions and requirements relating to that zone; and
- (c) the dates of the declaration and ending of that zone.

## **PART 7**

### **Vaccination**

#### **Prohibition on vaccination except in certain cases**

**24.** No person may vaccinate a horse against African horse sickness except in accordance with these Regulations or under the authority of a licence granted by a veterinary inspector.

#### **Compulsory vaccination**

**25.—**(1) The Welsh Ministers may declare a vaccination zone, other than in a surveillance zone.

(2) Where a vaccination zone has been declared, any occupier of premises inside that zone must ensure the vaccination of horses on their premises in accordance with that declaration, but this is subject to paragraph (4).

(3) Premises partly inside and partly outside a vaccination zone are treated as being inside that zone.

(4) Caiff arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad i unrhyw berson â cheffyl yn ei feddiant neu o dan ei gyfrifoldeb, ac eithrio un a gedwir mewn parth gwyliadwriaeth, i'w gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw frechu'r cheffyl yn unol â'r hysbysiad (p'un a ddatganwyd parth brechu o dan baragraff (1) ai peidio).

### **Ceffylau wedi eu brechu**

**26.**—(1) Rhaid i'r person sydd â cheffyl wedi ei frechu rhag clefyd Affricanaidd y ceffylau yn ei feddiant neu o dan ei gyfrifoldeb sicrhau bod modd adnabod y cheffyl drwy ficrosglodyn ac y cedwir cofnod fod y cheffyl hwnnw wedi ei frechu.

(2) Ni chaiff neb symud cheffyl sydd wedi ei frechu o'r fangre lle y cafodd ei frechu hyd oni fydd 60 o ddiwrnodau wedi mynd heibio er—

- (a) dyddiad y brechiad, neu
- (b) dyddiad y dos diwethaf os yw'r brechiad yn cynnwys cwrs o ddosau,

ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan arolygydd milfeddygol.

(4) A veterinary inspector may serve a notice on any person in possession or charge of a horse, other than one kept in a surveillance zone, requiring that person to vaccinate the horse in accordance with the notice (whether or not a vaccination zone has been declared under paragraph (1)).

### **Vaccinated horses**

**26.**—(1) The person in possession or charge of a horse that has been vaccinated against African horse sickness must ensure that the horse is identified by way of a microchip and a record of such horse having been vaccinated is kept.

(2) No person may move a vaccinated horse from the premises where it was vaccinated until at least 60 days have elapsed since—

- (a) the date of the vaccination, or
- (b) if the vaccination includes a course of doses, the date of the final dose,

except under the authority of a licence granted by a veterinary inspector.

## **RHAN 8**

### **Arolygu, gorfodi a darpariaethau amrywiol**

#### **Hysbysiadau**

**27.**—(1) Rhaid i unrhyw hysbysiad a gyflwynir neu a roddir o dan y Rheoliadau hyn fod yn ysgrifenedig a chaniateir eu diwygio, eu hatal neu eu dirymu unrhyw bryd.

(2) Caniateir cyflwyno neu roi hysbysiad i berson drwy—

- (a) ei draddodi yn bersonol;
- (b) ei adael yng nghyfeiriad cywir y person; neu
- (c) ei anfon drwy'r post neu drwy ddull electronig i gyfeiriad cywir y person.

(3) Yn achos corff corfforaethol, caniateir cyflwyno neu roi hysbysiad i un o swyddogion y corff hwnnw.

(4) Yn achos partneriaeth, caniateir cyflwyno neu roi hysbysiad i bartner neu berson sydd â rheolaeth ar fusnes y bartneriaeth, neu sy'n ei reoli.

(5) Yn achos cymdeithas anghorfforedig, caniateir cyflwyno neu roi hysbysiad i un o swyddogion y gymdeithas.

## **PART 8**

### **Inspection, enforcement and miscellaneous provisions**

#### **Notices**

**27.**—(1) Any notice served or given under these Regulations must be in writing and may be amended, suspended or revoked in writing at any time.

(2) A notice may be served on or given to a person by—

- (a) personal delivery;
- (b) leaving it at the person's proper address; or
- (c) sending it by post or by electronic means to the person's proper address.

(3) In the case of a body corporate, a notice may be served on or given to an officer of that body.

(4) In the case of a partnership, a notice may be served on or given to a partner or a person having control or management of the partnership business.

(5) In the case of an unincorporated association, a notice may be served on or given to an officer of the association.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn ac adran 7 o Ddeddf Dehongli 1978(1) (cyflwyno dogfennau drwy'r post), o ran y modd y mae'n gymwys i'r rheoliad hwn, ystyr "cyfeiriad cywir" ("*proper address*") yw—

- (a) yn achos corff corfforaethol neu un o swyddogion y corff hwnnw—
  - (i) swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r corff hwnnw, neu
  - (ii) cyfeiriad e-bost y swyddog;
- (b) yn achos partneriaeth neu bartner neu berson sydd â rheolaeth ar fusnes y bartneriaeth, neu sy'n ei reoli—
  - (i) prif swyddfa'r bartneriaeth, neu
  - (ii) cyfeiriad e-bost partner neu berson sydd â'r rheolaeth honno neu sy'n rheoli felly;
- (c) yn achos cymdeithas anghorfforedig neu un o swyddogion y gymdeithas—
  - (i) swyddfa'r gymdeithas, neu
  - (ii) cyfeiriad e-bost y swyddog;
- (d) ymhob achos arall, cyfeiriad hysbys diwethaf y person, sy'n cynnwys cyfeiriad e-bost.

(7) At ddibenion paragraff (6), prif swyddfa corff corfforaethol a gofrestrwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu bartneriaeth a sefydlwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig yw ei brif swyddfa neu ei phrif swyddfa yn y Deyrnas Unedig.

(8) Os na ellir, ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol, ganfod enw neu gyfeiriad unrhyw feddiannydd mangre y cyflwynir neu y rhoddir hysbysiad iddo o dan y Rheoliadau hyn, caniateir cyflwyno'r hysbysiad drwy ei osod yn amlwg ar adeilad neu wrthrych yn y fangre.

(9) Rhaid i berson gydymffurfio â thelerau unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan y Rheoliadau hyn.

(10) Yn y rheoliad hwn—

mae "corff corfforaethol" ("*body corporate*") yn cynnwys partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig;

ystyr "cyfarwyddwr" ("*director*"), mewn perthynas â chorff corfforaethol y rheolir ei faterion gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol;

nid yw "partneriaeth" ("*partnership*") yn cynnwys partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig;

ystyr "swyddog" ("*officer*"), mewn perthynas â chorff corfforaethol, yw unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu un o swyddogion tebyg eraill y corff corfforaethol.

(6) For the purposes of this regulation and section 7 of the Interpretation Act 1978(1) (service of documents by post) in its application to this regulation, "proper address" ("*cyfeiriad cywir*") means—

- (a) in the case of a body corporate or an officer of that body—
  - (i) the registered or principal office of that body, or
  - (ii) the email address of the officer;
- (b) in the case of a partnership or a partner or person having control or management of the partnership business—
  - (i) the principal office of the partnership, or
  - (ii) the email address of a partner or a person having that control or management;
- (c) in the case of an unincorporated association or an officer of the association—
  - (i) the office of the association, or
  - (ii) the email address of the officer;
- (d) in any other case, a person's last known address, which includes an email address.

(7) For the purposes of paragraph (6), the principal office of a body corporate registered outside the United Kingdom or of a partnership established outside the United Kingdom is its principal office in the United Kingdom.

(8) If the name or address of any occupier of premises on whom a notice is to be served or given under these Regulations cannot, after reasonable inquiry, be ascertained, the notice may be served by leaving it conspicuously affixed to a building or object on the premises.

(9) A person must comply with the terms of any notice served under these Regulations.

(10) In this regulation—

"body corporate" ("*corff corfforaethol*") includes a limited liability partnership;

"director" ("*cyfarwyddwr*"), in relation to a body corporate whose affairs are managed by its members, means a member of the body corporate;

"officer" ("*swyddog*"), in relation to a body corporate, means any director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate;

"partnership" ("*partneriaeth*") does not include a limited liability partnership.

---

(1) 1978 p. 30.

---

(1) 1978 c. 30.

## Trwyddedau

**28.—**(1) Rhaid i drwydded a roddir o dan y Rheoliadau hyn fod yn ysgrifenedig a chaniateir iddi—

- (a) bod yn gyffredinol neu benodol;
- (b) bod yn ddarostyngedig i amodau; ac
- (c) cael ei diwygio, ei hatal neu ei dirymu, yn ysgrifenedig, unrhyw bryd.

(2) Rhaid i berson sy'n symud unrhyw geffyl, cyfarpar neu ddeunydd genetig o dan awdurdod trwydded benodol—

- (a) bod â'r drwydded neu gopi ohoni arno drwy'r amser wrth symud, a
- (b) os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd neu un o swyddogion eraill Gweinidogion Cymru, dangos y drwydded neu gopi ohoni a chaniatáu i gopi neu ddetholiad ohoni gael ei wneud.

(3) Pan fo trwydded yn ofynnol neu wedi ei hawdurdodi o dan y Rheoliadau hyn i'w rhoi gan arolygydd milfeddygol, mae modd iddi hefyd gael ei rhoi gan arolygydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

(4) Rhaid i berson sy'n symud unrhyw geffyl, cyfarpar neu ddeunydd genetig o dan awdurdod trwydded gyffredinol—

- (a) drwy'r amser wrth symud, fod â dogfen sy'n cynnwys manylion ynghylch—
  - (i) yr hyn sy'n cael ei gludo, gan gynnwys faint ohono sydd,
  - (ii) dyddiad y symud,
  - (iii) enw'r person sy'n gyfrifol am y ceffyl neu'r cyfarpar yn y man gadael a'r gyrchfan;
- (iv) cyfeiriad y man gadael a'r gyrchfan;

- (b) os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd neu un o swyddogion eraill Gweinidogion Cymru, dangos y ddogfen a chaniatáu i gopi neu ddetholiad ohoni gael ei wneud; ac
- (c) cadw'r ddogfen am chwe mis o leiaf.

(5) Os yw unrhyw geffyl, cyfarpar neu ddeunydd genetig wedi ei symud i fangre o dan drwydded, caiff arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad i unrhyw feddiannydd y fangre sy'n gyrchfan gan osod y cyfyngiadau angenrheidiol ar symud ar y fangre honno er mwyn atal y risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu.

## Licences

**28.—**(1) A licence granted under these Regulations must be in writing and may be—

- (a) general or specific;
- (b) subject to conditions; and
- (c) amended, suspended or revoked in writing at any time.

(2) A person moving any horse, equipment or genetic material under the authority of a specific licence must—

- (a) carry the licence or a copy of it at all times during the movement, and
- (b) on demand by an inspector or other officer of the Welsh Ministers, produce the licence or a copy and allow a copy or extract to be taken.

(3) Where a licence is required or authorised under these Regulations to be granted by a veterinary inspector, it may also be granted by an inspector acting under the direction of a veterinary inspector.

(4) A person moving any horse, equipment or genetic material under the authority of a general licence must—

- (a) carry, at all times during the movement, a document containing details of—
  - (i) what is being transported, including the quantity,
  - (ii) the date of the movement,
  - (iii) the name of the person responsible for the horse or equipment at both the place of departure and at the place of destination,
- (iv) the address of the place of departure and of the destination;
- (b) on demand by an inspector or other officer of the Welsh Ministers, produce the document and allow a copy or extract to be taken; and
- (c) keep the document for at least six months.

(5) If any horse, equipment or genetic material has been moved to premises under a licence, a veterinary inspector may serve a notice on any occupier of the premises of destination imposing such movement restrictions on those premises as are necessary to prevent the risk of spreading African horse sickness virus.



(6) Ac eithrio pan fo cyfarwyddyd fel arall gan Weinidogion Cymru, mae trwyddedau a roddir yn Lloegr neu'r Alban ar gyfer gweithgareddau y gellid eu trwyddedu yng Nghymru o dan y Rheoliadau hyn yn cael effaith yng Nghymru fel petaent yn drwyddedau a roddir o dan y Rheoliadau hyn, ac mae darpariaethau'r rheoliad hwn yn gymwys yn unol â hynny.

### Pwerau arolygwyr

**29.**—(1) Caiff arolygydd, drwy ddangos awdurdodiad wedi ei ddilysu'n briodol os gofynnir amdano, fynd i mewn i unrhyw fangre, cerbyd, llestr neu ôl-gerbyd (ac eithrio unrhyw fangre a ddefnyddir yn llwyr neu yn bennaf fel annedd breifat) ar unrhyw adeg resymol o'r dydd at ddiben gweithredu neu orfodi'r Rheoliadau hyn.

(2) Caiff ynad heddwch, drwy warant wedi ei llofnodi, ganiatáu i arolygydd milfeddygol fynd i mewn i unrhyw fangre, a hynny gan ddefnyddio grym rhesymol os oes angen, os yw'r ynad wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig a roddir ar lw—

- (a) bod sail resymol i fynd i mewn i'r fangre honno at ddiben gweithredu neu orfodi'r Rheoliadau hyn; a
- (b) bod unrhyw un neu ragor o'r amodau ym mharagraff (3) wedi eu bodloni.

(3) Dyma'r amodau—

- (a) bod mynediad i'r fangre wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod, a bod y meddiannydd wedi cael hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant;
- (b) y byddai gofyn am gael mynediad i'r fangre, neu roi hysbysiad o'r fath, yn tanseilio'r diben o fynd i mewn;
- (c) bod angen mynediad ar fyrder; neu
- (d) bod y fangre heb ei meddiannu neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro.

(4) Mae gwarant yn ddilys am dri mis.

(5) Rhaid i arolygydd sy'n mynd i mewn i unrhyw fangre nad yw wedi ei meddiannu, neu lle y mae'r meddiannydd yn absennol ohoni dros dro, ei gadael wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad heb awdurdod ag yr oedd cyn iddo fynd i mewn iddi.

(6) Caiff arolygydd sy'n mynd i mewn i unrhyw fangre, cerbyd, llestr neu ôl-gerbyd—

- (a) arolygu unrhyw geffyl neu beth yno;
- (b) cymryd samplau;
- (c) ymafael yn unrhyw gyfarpar neu ddeunydd genetig a'i ddifa;
- (d) cadw neu ynysu unrhyw anifail neu beth;

(6) Except where otherwise directed by the Welsh Ministers, licences granted in England or Scotland for activities which could be licensed in Wales under these Regulations have effect in Wales as if they were licences granted under these Regulations, and the provisions of this regulation apply accordingly.

### Powers of inspectors

**29.**—(1) An inspector may, on producing a duly authenticated authorisation if requested, enter any premises, vehicle, vessel or trailer (except any premises used wholly or mainly as a private dwelling house) at any reasonable hour for the purpose of executing or enforcing these Regulations.

(2) A justice of the peace may by signed warrant permit an inspector to enter any premises, if necessary by reasonable force, if the justice, on sworn information in writing, is satisfied—

- (a) that there are reasonable grounds to enter those premises for the purpose of executing or enforcing these Regulations; and
- (b) that any of the conditions in paragraph (3) are met.

(3) The conditions are—

- (a) entry to the premises has been, or is likely to be, refused, and notice of the intention to apply for a warrant has been given to the occupier;
- (b) asking for admission to the premises, or giving such a notice, would defeat the object of the entry;
- (c) entry is required urgently; or
- (d) the premises are unoccupied or the occupier is temporarily absent.

(4) A warrant is valid for three months.

(5) An inspector entering any premises which are unoccupied or from which the occupier is temporarily absent must leave them as effectively secured against unauthorised entry as they were before entry.

(6) An inspector entering any premises, vehicle, vessel or trailer may—

- (a) inspect any horse or thing there;
- (b) take samples;
- (c) seize and destroy any equipment or genetic material;
- (d) detain or isolate any animal or thing;

- (e) gosod marc neu ficrosglodyn at ddibenion adnabod unrhyw anifail neu beth;
- (f) cyflawni unrhyw ymholiadau, archwiliadau a phroffion;
- (g) cadw gwyliadwriaeth am fectorau a gweithredu mesurau rheoli fectorau (gan gynnwys cyflwyno unrhyw geffyl dangos clwy);
- (h) cyrchu, arolygu a chopïo unrhyw ddogfennau neu gofnodion (ym mha bynnag ffurf y maent) sy'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn, a'u symud er mwyn gallu eu copïo;
- (i) arolygu a gwirio gweithrediad unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig sy'n cael ei ddefnyddio neu sydd wedi cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r cofnodion;
- (j) ei gwneud yn ofynnol drwy gyflwyno hysbysiad i feddiannydd y fangre—
  - (i) bod unrhyw anifail yn cael ei farcio neu'n cael microsglodyn at ddibenion ei adnabod;
  - (ii) bod unrhyw anifail neu beth (gan gynnwys cerbyd neu ôl-gerbyd) yn cael ei symud i le penodedig neu ei symud i ran arbennig o'r fangre neu ei gadw mewn rhan arbennig o'r fangre;
  - (iii) bod gwyliadwriaeth yn cael ei chadw am bresenoldeb pryfed;
  - (iv) bod mesurau rheoli fectorau y mae'r arolygydd yn barnu eu bod yn ymarferol ac yn angenrheidiol yn cael eu gweithredu;
  - (v) bod ceffylau yn cael eu cadw i'w defnyddio fel ceffylau dangos clwy neu fod ceffylau dangos clwy yn cael eu cyflwyno i'r fangre.

(7) Pan fo arolygydd wedi mynd i mewn i unrhyw fangre, cerbyd, llestr neu ôl-gerbyd ac nad yw'n rhesymol ymarferol penderfynu a yw dogfennau yn y fangre honno yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn ai peidio, caiff yr arolygydd ymafael ynddynt er mwyn canfod a ydynt yn berthnasol ai peidio.

(8) Caiff yr arolygydd—

- (a) mynd ag unrhyw gyfarpar, ceffyl dangos clwy, neu gerbyd sy'n angenrheidiol i'r fangre;
- (b) mynd â'r canlynol gydag ef—
  - (i) y personau eraill hynny y mae'r arolygydd yn barnu eu bod yn angenrheidiol, a

- (e) mark or microchip for identification purposes any animal or thing;
- (f) carry out any inquiries, examinations and tests;
- (g) undertake surveillance for vectors and implement vector control measures (including the introduction of any sentinel horse);
- (h) have access to, inspect and copy any documents or records (in whatever form they are held) relevant to these Regulations, and remove them to enable them to be copied;
- (i) inspect and check the operation of any computer and any associated apparatus or material that is or has been in use in connection with records;
- (j) require by notice served on the occupier of the premises—
  - (i) any animal to be marked or microchipped for identification purposes;
  - (ii) any animal or thing (including a vehicle or trailer) to be moved to a specified destination or to be moved to or kept in a particular part of the premises;
  - (iii) the undertaking of surveillance for the presence of insects;
  - (iv) the implementation of such vector control measures as the inspector considers practical and necessary;
  - (v) horses to be retained for use as sentinel horses or sentinel horses to be introduced onto those premises.

(7) Where an inspector has entered any premises, vehicle, vessel or trailer and it is not reasonably practicable to determine whether documents on those premises are relevant to these Regulations, the inspector may seize them to ascertain whether or not they are relevant.

(8) The inspector may—

- (a) take any necessary equipment, sentinel horse or vehicle on to the premises;
- (b) be accompanied by—
  - (i) such other persons as the inspector considers necessary, and



(ii) unrhyw un sy'n cynrychioli'r Comisiwn Ewropeaidd.

(9) Mae unrhyw bŵer neu rwymedigaeth i gymryd sampl a'i brofi yn cynnwys pŵer i—

- (a) ailbrofi'r sampl, a
- (b) cymryd samplau pellach (o'r anifeiliaid neu garcasau sy'n ddarostyngedig i'r pŵer hwnnw neu, yn achos samplau amgylcheddol, gymryd samplau amgylcheddol pellach) a phrofi ac ailbrofi'r samplau hynny.

(10) Yn y rheoliad hwn, ceffyl dangos clwy yw ceffyl a ddefnyddir ar gyfer cadw gwyliadwriaeth am feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau nad oes ganddo wrthgyrff i'r feirws hwnnw pan gyflwynwyd ef i'r fangre neu pan gadwyd ef yn y fangre at y diben hwnnw.

### **Hysbysiad yn dilyn torri'r cyfyngiad ar symud**

**30.**—(1) Os yw ceffyl wedi ei symud i unrhyw fangre drwy dorri unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn, neu unrhyw drwydded neu hysbysiad a gyflwynir o dan y Rheoliadau hyn, caiff arolygydd gyflwyno hysbysiad i brif feddiannydd y fangre honno i'w gwneud yn ofynnol—

- (a) i'r ceffyl hwnnw, neu unrhyw geffyl arall yn y fangre, gael ei gadw yn y fangre, neu
- (b) i unrhyw geffyl yn y fangre gael ei symud i fangre arall a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Os yw ceffyl wedi ei symud i fangre arall o dan hysbysiad o'r fath, caiff arolygydd gyflwyno hysbysiad i unrhyw feddiannydd y fangre arall honno i osod y cyfyngiadau ar symud mewn perthynas â cheffylau yn y fangre honno y mae'r arolygydd yn barnu eu bod yn angenrheidiol er mwyn lleihau'r risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu.

### **Newid prif feddiannydd mangre sydd o dan gyfyngiad – mynediad at ddibenion lles**

**31.** Os yw prif feddiannydd mangre sydd o dan gyfyngiad o dan y Rheoliadau hyn yn newid, rhaid i'r prif feddiannydd newydd ganiatáu i berchennog unrhyw geffyl yn y fangre, neu unrhyw berson yn gweithredu ar ran y perchennog, fynd i mewn i'r fangre i fwydo'r ceffyl neu ymorol fel arall am ei les yn ystod cyfnod y cyfyngiad ac am saith niwrnod wedi iddo ddod i ben.

(ii) any representative of the European Commission.

(9) Any power or obligation to take a sample and test it includes a power to—

- (a) re-test the sample, and
- (b) take further samples (from the animals or carcasses subject to that power or, in the case of environmental samples, take further environmental samples) and test and re-test those samples.

(10) In this regulation, a sentinel horse is a horse used for surveillance for African horse sickness virus which does not have antibodies to that virus when introduced to or retained at the premises for that purpose.

### **Notice following a contravention on movement**

**30.**—(1) If a horse has been moved to any premises in contravention of any provision of these Regulations or any licence or notice served under these Regulations, an inspector may serve a notice on the main occupier of those premises requiring—

- (a) that horse, or any other horse on the premises, to be detained on the premises, or
- (b) any horse on the premises to be moved to other premises specified in the notice.

(2) If a horse has been moved to other premises under such a notice, an inspector may serve a notice on any occupier of those other premises imposing such movement restrictions relating to horses on those premises as the inspector considers necessary to reduce the risk of spreading African horse sickness virus.

### **Change of main occupier of premises under restriction – access for welfare purposes**

**31.** If there is a change of main occupier of premises under any restriction under these Regulations, the new main occupier must allow the owner of any horse on the premises, or any person acting on behalf of the owner, to enter the premises to feed or otherwise attend to the welfare of the horse during the period of restriction and for seven days following its end.

## **Pwerau arolygwyr mewn achos o fethu â chydymffurfio**

**32.** Os yw unrhyw berson yn methu â chydymffurfio â gofyniad yn y Rheoliadau hyn neu oddi tanynt, caiff arolygydd gymryd unrhyw gamau y mae'r arolygydd hwnnw yn barnu eu bod yn angenrheidiol i sicrhau y bydd y gofyniad yn cael ei fodloni ar draul y person hwnnw.

## **Digolledu am geffylau a laddwyd a phethau yr ymafaeliwyd ynddynt**

**33.—**(1) O ran Gweinidogion Cymru, yn unol â'r rheoliad hwn—

- (a) cânt ddigolledu am ladd unrhyw geffyl o dan reoliad 12 neu 16(6)(e);
- (b) rhaid iddynt ddigolledu am ymafael yn unrhyw beth o dan y Rheoliadau hyn, oni ddychwelir ef.

(2) Ni ddigolledir am geffyl a oedd, pan gafodd ei ladd, wedi ei effeithio gan glefyd Affricanaidd y ceffylau.

(3) O ran swm y digollediad sy'n daladwy o dan baragraff(1)(a)—

- (a) yn ddarostyngedig i is-baragraff (b) gwerth y ceffyl yn union cyn iddo gael ei ladd yw hwnnw;
- (b) ni chaiff, mewn unrhyw achos, fod yn fwy na £2500 am unrhyw geffyl.

(4) O ran swm y digollediad sy'n daladwy o dan baragraff (1)(b)—

- (a) yn ddarostyngedig i is-baragraff (b), gwerth y peth yr ymafaeliwyd ynddo ar yr adeg pryd yr ymafaeliwyd ynddo yw hwnnw;
- (b) yn achos unrhyw ddeunydd genetig sy'n dod o'r un ceffyl, ni chaiff, mewn unrhyw achos, fod yn fwy na £2500 (ni waeth beth fo natur na nifer yr eitemau o ddeunydd genetig yr ymafaeliwyd ynddynt).

(5) Gwerth y ceffyl neu'r peth yr ymafaelir ynddo (yn ôl y digwydd) yw—

- (a) y swm a benderfynir yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru ("prisiad Gweinidogion Cymru"), neu
- (b) y swm a benderfynir yn ysgrifenedig gan y prisiwr hwnnw yn lle hynny, pan fo'r penderfyniad ynghylch y gwerth wedi ei gyfeirio o dan baragraff (6) at brisiwr penodedig.

(6) Os yw—

- (a) prisiad Gweinidogion Cymru yn llai na £2500, a

## **Powers of inspectors in case of default**

**32.** If any person fails to comply with a requirement in or under these Regulations, an inspector may take such steps as that inspector considers necessary to ensure the requirement is met at the expense of that person.

## **Compensation for horses killed and things seized**

**33.—**(1) The Welsh Ministers, in accordance with this regulation—

- (a) may pay compensation for any horse killed under regulation 12 or 16(6)(e);
- (b) must pay compensation for anything seized under these Regulations, unless it is returned.

(2) No compensation is payable for a horse that, at the time it was killed, was affected with African horse sickness.

(3) The amount of any compensation payable under paragraph (1)(a)—

- (a) subject to sub-paragraph (b), is the value of the horse immediately before it was killed;
- (b) may not in any case exceed £2500 for any horse.

(4) The amount of any compensation payable under paragraph (1)(b)—

- (a) subject to sub-paragraph (b), is the value of the thing seized at the time of its seizure;
- (b) in the case of any genetic material coming from the same horse, may not in any case exceed £2500 (regardless of the nature or number of items of genetic material seized).

(5) The value of the horse or thing seized (as the case may be) is—

- (a) the amount determined in writing by the Welsh Ministers ("the Welsh Ministers's valuation"), or
- (b) where the determination of the value has been referred to an appointed valuer under paragraph (6), the amount determined in writing by that valuer instead.

(6) If—

- (a) the Welsh Ministers's valuation is less than £2500, and

- (b) perchennog y ceffyl a laddwyd neu (yn ôl y digwydd) y peth yr ymafaeliwyd ynddo yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru yn dadlau yn erbyn y prisiad hwnnw, gyda rhesymau, a hynny o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl derbyn prisiad Gweinidogion Cymru,

rhaid i Weinidogion Cymru gyfeirio'r penderfyniad ynghylch y gwerth at brisiwr penodedig.

(7) Rhaid i'r prisiwr penodedig fod yn berson—

- (a) sydd wedi ei benodi ar y cyd gan y perchennog a Gweinidogion Cymru at ddiben cynnal prisiad o dan y rheoliad hwn, neu
- (b) sydd, o fethu cytuno ar benodiad o'r fath o fewn 10 diwrnod ar ôl cael yr hysbysiad a roddir o dan baragraff (6), wedi ei benodi gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw.

(8) Mae penderfyniad y prisiwr penodedig ynghylch y gwerth yn derfynol ac yn rhwymo Gweinidogion Cymru a'r perchennog (ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraffau (3)(b) a (4)(b))

(9) Rhaid i ffioedd a godir neu dreuliau a dynnir gan brisiwr penodedig am waith a wneir o dan y rheoliad hwn gael eu talu—

- (a) gan y perchennog, pan fo penderfyniad y prisiwr yn gyfwerth â phrasiad Gweinidogion Cymru neu'n is,
- (b) gan Weinidogion Cymru, fel arall.

(10) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn awdurdodi unrhyw oedi o ran lladd ceffyl at ddibenion rheoli clefyd Affricanaidd y ceffylau.

## Rhwystro

34. Ni chaiff neb—

- (a) mynd ati'n fwriadol i rwystro neu atal unrhyw un sydd, wrth ei waith, yn gweithredu neu'n gorfodi'r Rheoliadau hyn;
- (b) heb achos rhesymol, y mae ei brofi yn fater i'r person a gyhuddir, fethu â rhoi unrhyw gymorth na gwybodaeth sy'n rhesymol angenrheidiol i unrhyw berson sydd, wrth ei waith, yn gweithredu neu'n gorfodi'r Rheoliadau hyn;
- (c) darparu unrhyw wybodaeth y gŵyr ei bod yn ffug neu'n gamarweiniol neu heb gredu ei bod yn wir i unrhyw un sydd, wrth ei waith, yn gweithredu neu'n gorfodi'r Rheoliadau hyn; neu
- (d) methu â dangos cofnod, pan ofynnir iddo wneud hynny gan unrhyw berson sydd, wrth ei waith, yn gweithredu neu'n gorfodi'r Rheoliadau hyn.

- (b) within 14 days after receiving the Welsh Ministers's valuation, the owner of the horse killed or (as the case may be) the thing seized gives written notice to the Welsh Ministers disputing that valuation, with reasons,

the Welsh Ministers must refer the determination of the value to an appointed valuer.

(7) The appointed valuer must be a person—

- (a) appointed jointly by the owner and the Welsh Ministers for the purpose of conducting a valuation under this regulation, or
- (b) failing agreement on such appointment within 10 days of receipt of the notice given under paragraph (6), appointed by the Welsh Ministers for that purpose.

(8) The determination of value by the appointed valuer is final and binding on the Welsh Ministers and the owner (but this is subject to paragraphs (3)(b) and (4)(b)).

(9) Fees charged or expenses incurred by an appointed valuer for work done under this regulation must be paid—

- (a) where the valuer's determination is equal to or less than the Welsh Ministers's valuation, by the owner,
- (b) otherwise, by the Welsh Ministers.

(10) Nothing in this regulation authorises any delay in the killing of a horse for the purposes of controlling African horse sickness.

## Obstruction

34. No person may—

- (a) intentionally obstruct or impede anyone acting in the execution or enforcement of these Regulations;
- (b) without reasonable cause, proof of which lies on the person charged, fail to give to any person acting in the execution or enforcement of these Regulations any assistance or information that is reasonably required;
- (c) provide to anyone acting in the execution or enforcement of these Regulations any information knowing it to be false or misleading or not believing it to be true; or
- (d) fail to produce a record when required to do so by any person acting in the execution or enforcement of these Regulations.

## Troseddau a chosbau

**35.**—(1) Mae person yn euog o drosedd os yw'r person hwnnw yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau canlynol—

- (a) rheoliad 3(4) (meddiannydd i roi cymorth rhesymol i alluogi'r prif feddiannydd i gydymffurfio â rhwymedigaethau);
- (b) rheoliad 3(5) (y prif feddiannydd i gymryd camau rhesymol i hysbysu meddianwyr eraill am y cyfyngiadau ar symud sy'n deillio o hysbysiad);
- (c) rheoliad 5(1) neu (2) (gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru am geffyl neu garcas etc dan amheuaeth);
- (d) rheoliad 7(7)(a)(i), (ii) neu (iii) (gwaharddiad ar symud ceffyl neu garcas hysbysedig; cyfarpar neu ddeunydd genetig; neu geffylau eraill);
- (e) rheoliad 7(7)(b)(i) neu (ii) (rhwymedigaeth i symud ceffylau ac adnabod fectorau etc);
- (f) rheoliad 11(3) (gwaharddiad ar bersonau sy'n symud ceffylau i fangre);
- (g) rheoliad 14(5)(a), (b) neu (c) (rheolaethau sy'n ymwneud â lladd-dai);
- (h) rheoliad 17(4) (gwaharddiad ar symud didrwydded o fewn parth cyfyngu dros dro ar symud);
- (i) rheoliad 18(7) (gwaharddiad ar symud didrwydded allan o barth gwarchod neu allan o barth gwyliadwriaeth i ardal sy'n rhydd o gyfyngiadau);
- (j) rheoliad 18(8)(a) neu (b) (gwaharddiad ar symud asynnod etc yn ddidrwydded neu symud ceffylau sy'n dangos arwyddion clinigol o glefyd Affricanaidd y ceffylau);
- (k) rheoliad 21(3) (rhwymedigaeth i gydymffurfio â chyfyngiadau a mesurau a osodir drwy ddatganiad o dan reoliad 17(5), 18(9), neu 19(3));
- (l) rheoliad 24 (gwaharddiad ar frechu);
- (m) rheoliad 25(2) (gofyniad i frechu yn unol â datganiad ynghylch parth brechu);
- (n) rheoliad 26(1) neu (2) (gofyniad i adnabod ceffylau sydd wedi eu brechu ac i gadw cofnodion; gwaharddiad ar symud yn ddidrwydded geffyl sydd wedi ei frechu);
- (o) rheoliad 27(9) (gofyniad i gydymffurfio â hysbysiad);
- (p) rheoliad 28(2)(a) neu (b) (gofyniad i fod â thrwydded neu gopi ohoni; gofyniad i ddangos etc trwydded);

## Offences and penalties

**35.**—(1) A person is guilty of an offence if that person fails to comply with any of the following provisions—

- (a) regulation 3(4) (occupier to give reasonable assistance to enable main occupier to comply with obligations);
- (b) regulation 3(5) (main occupier to take reasonable steps to inform other occupiers of movement restrictions arising from notice);
- (c) regulation 5(1) or (2) (requirement to notify Welsh Ministers of suspect horse or carcass etc);
- (d) regulation 7(7)(a)(i), (ii) or (iii) (prohibition on movement of notified horse or carcass; equipment or genetic material; or other horses);
- (e) regulation 7(7)(b)(i) or (ii) (obligation to move horses and identify vectors etc);
- (f) regulation 11(3) (prohibition on persons moving horses onto premises);
- (g) regulation 14(5)(a), (b) or (c) (controls relating to slaughterhouses);
- (h) regulation 17(4) (prohibition on unlicensed movement within temporary movement restriction zone);
- (i) regulation 18(7) (prohibition on unlicensed movement out of protection zone or out of surveillance zone to an area free from restrictions);
- (j) regulation 18(8)(a) or (b) (prohibition on unlicensed movement of asses etc or movement of horses showing clinical signs of African horse sickness);
- (k) regulation 21(3) (obligation to comply with restrictions and measures imposed by declaration under regulation 17(5), 18(9), or 19(3));
- (l) regulation 24 (prohibition on vaccination);
- (m) regulation 25(2) (requirement to vaccinate in accordance with declaration of vaccination zone);
- (n) regulation 26(1) or (2) (requirement to identify vaccinated horse and to keep records; prohibition on unlicensed movement of vaccinated horse);
- (o) regulation 27(9) (requirement to comply with notice);
- (p) regulation 28(2)(a) or (b) (requirement to carry licence or copy; requirement to produce etc licence);

- (q) rheoliad 28(4)(a), (b) neu (c) (gofyniad i fod â dogfen arnoch; gofyniad i ddangos etc dogfen; gofyniad i gadw dogfen);
- (r) rheoliad 31 (rhwymedigaeth ar brif feddiannydd newydd i ganiatáu mynediad at ddibenion bwydo neu ymorol am les);
- (s) rheoliad 34 (rhwystro);
- (t) paragraff 1, 2 neu 4 o'r Atodlen (gofyniad i gadw cofnodion etc; gofyniad ynghylch lletya ceffylau; gofyniad ynghylch gweithredu rheolaeth ar fectorau);
- (u) paragraff 3 o'r Atodlen (gwaharddiad ar symud yn ddirwydded).

(2) Mae person sy'n euog o drosedd yn agored—

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod—
  - (i) yn achos collfarn am drosedd o dan baragraff (1)(b), (c), (d), (e), (f), (g), (h), (i), (j), (k), (m), (o), (s) neu (u), i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis, neu'r ddau,
  - (ii) yn achos collfarn am unrhyw drosedd arall o dan baragraff (1) i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol, neu
- (b) o'i gollfarnu ar dditad, i ddirwy neu i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na chwe mis neu'r ddau.

### Troseddau gan gyrff corfforaethol

**36.**—(1) Os profir bod trosedd a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol o dan y Rheoliadau hyn—

- (a) wedi cael ei chyflawni gyda chydsyniad neu gydgyllwyn swyddog, neu
- (b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog,

mae'r swyddog, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr “swyddog” (“*officer*”), mewn perthynas â chorff corfforaethol, yw—

- (a) cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu un o swyddogion tebyg eraill y corff, neu
- (b) person a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swyddogaeth o'r fath.

(3) Os yw materion corff corfforaethol yn cael eu rheoli gan ei aelodau, mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gweithredoedd a diffyg gweithredoedd aelod mewn cysylltiad â swyddogaethau rheoli'r aelod hwnnw fel y mae'n gymwys i un o swyddogion corff corfforaethol.

- (q) regulation 28(4)(a), (b) or (c) (requirement to carry document; requirement to produce etc document; requirement to keep document);
- (r) regulation 31 (obligation on new main occupier to allow entry for purposes of feeding or welfare);
- (s) regulation 34 (obstruction);
- (t) paragraph 1, 2, or 4 of the Schedule (requirement to keep records etc; requirement as to housing of horses; requirement to implement vector control);
- (u) paragraph 3 of the Schedule (prohibition on unlicensed movement).

(2) A person guilty of an offence is liable—

- (a) on summary conviction—
  - (i) in the case of conviction for an offence under paragraph (1)(b), (c), (d), (e), (f), (g), (h), (i), (j), (k), (m), (o), (s) or (u) to a fine not exceeding the statutory maximum or to imprisonment for a term not exceeding three months, or both,
  - (ii) in the case of conviction for any other offence under paragraph (1) to a fine not exceeding the statutory maximum, or
- (b) on conviction on indictment, to a fine or to imprisonment for a term not exceeding six months or both.

### Offences by bodies corporate

**36.**—(1) If an offence under these Regulations committed by a body corporate is proved—

- (a) to have been committed with the consent or connivance of an officer, or
- (b) to be attributable to any neglect on the part of an officer,

the officer, as well as the body corporate, is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) In paragraph (1) “officer” (“*swyddog*”), in relation to a body corporate, means—

- (a) a director, manager, secretary or other similar officer of the body, or
- (b) a person purporting to act in any such capacity.

(3) If the affairs of a body corporate are managed by its members, paragraph (1) applies in relation to the acts and defaults of a member in connection with the member's functions of management as it applies to an officer of a body corporate.



## Troseddau gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig

37.—(1) Caniateir dwyn achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir iddi gael ei chyflawni gan bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig, yn erbyn y bartneriaeth neu'r gymdeithas yn enw'r bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(2) At ddibenion achos o'r fath—

- (a) mae rheolau llys sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel petai'r bartneriaeth neu'r gymdeithas yn gorff corfforaethol; a
- (b) mae adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925(1) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(2) yn gymwys mewn perthynas â phartneriaeth neu gymdeithas fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforaethol.

(3) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth neu gymdeithas pan gawsant eu collfarnu o drosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu allan o gronfeydd y bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(4) Pan brofir bod trosedd a gyflawnwyd gan bartneriaeth o dan y Rheoliadau hyn wedi ei chyflawni gyda chydysyniad neu gydgyllwyn partner, neu ei bod i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran partner, mae'r partner hwnnw (yn ogystal â'r bartneriaeth) yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(5) At y dibenion hyn, mae “partner” (“*partner*”) yn cynnwys person sy'n honni ei fod yn gweithredu fel partner.

(6) Os profir bod trosedd a gyflawnwyd gan gymdeithas anghorfforedig o dan y Rheoliadau hyn—

- (a) wedi ei chyflawni gyda chydysyniad neu gydgyllwyn, neu

## Offences by partnerships and unincorporated associations

37.—(1) Proceedings for an offence under these Regulations alleged to have been committed by a partnership or an unincorporated association may be brought against the partnership or association in the name of the partnership or association.

(2) For the purposes of such proceedings—

- (a) rules of court relating to the service of documents are to have effect as if the partnership or association were a body corporate; and
- (b) section 33 of the Criminal Justice Act 1925(1) and Schedule 3 to the Magistrates' Courts Act 1980(2) apply in relation to the partnership or association as they apply in relation to a body corporate.

(3) A fine imposed on a partnership or association on its conviction of an offence under these Regulations is to be paid out of the funds of the partnership or association.

(4) Where an offence under these Regulations committed by a partnership is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, a partner, that partner (as well as the partnership) is guilty of the offence and is liable to be proceeded against and punished accordingly.

(5) For these purposes, “partner” (“*partner*”) includes a person purporting to act as a partner.

(6) If an offence under these Regulations committed by an unincorporated association is proved—

- (a) to have been committed with the consent or connivance of, or

(1) 1925 p. 86. Diddymwyd is-adrannau (1), (2) a (5) o adran 33 gan Ddeddf Llysoedd Ynadon 1952 (p. 55), adran 132 ac Atodlen 6; diwygiwyd is-adran (3) gan Ddeddf y Llysoedd 1971 (p. 23), adran 56(1) ac Atodlen 8, Rhan 2, paragraff 19; diwygiwyd is-adran (4) gan Ddeddf y Llysoedd 2003 (p. 39), adran 109(1) a (3), Atodlen 8, paragraff 71 ac Atodlen 10.

(2) 1980 p. 43. Diwygiwyd paragraff 2(a) o Atodlen 3 gan Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (p. 25), adran 47, Atodlen 1, paragraff 13, ac fe'i diddymwyd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44), adrannau 41 a 332, Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 51(1) a (13)(a), ac Atodlen 37, Rhan 4 (yn effeithiol o ddyddiad sydd i'w bennu); diddymwyd paragraff 5 gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 (p. 53), adrannau 25(2) a 101(2) ac Atodlen 13; diddymwyd paragraff 6 gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, adran 41, Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 51(1) a (13)(b) (yn effeithiol o ddyddiad sydd i'w bennu).

(1) 1925 c. 86. Subsections (1), (2) and (5) of section 33 were repealed by the Magistrates' Court Act 1952 (c. 55), section 132 and Schedule 6; subsection (3) was amended by the Courts Act 1971 (c. 23), section 56(1) and Schedule 8, Part 2, paragraph 19; subsection (4) was amended by the Courts Act 2003 (c. 39), section 109(1) and (3), Schedule 8, paragraph 71 and Schedule 10.

(2) 1980 c. 43. Paragraph 2(a) of Schedule 3 was amended by the Criminal Procedure and Investigations Act 1996 (c. 25), section 47, Schedule 1, paragraph 13, and was repealed by the Criminal Justice Act 2003 (c. 44), sections 41 and 332, Schedule 3, Part 2, paragraph 51(1) and (13)(a), and Schedule 37, Part 4 (with effect from a date to be appointed); paragraph 5 was repealed by the Criminal Justice Act 1991 (c. 53), sections 25(2) and 101(2) and Schedule 13; paragraph 6 was repealed by the Criminal Justice Act 2003, section 41, Schedule 3, Part 2, paragraph 51(1) and (13)(b) (with effect from a date to be appointed).

- (b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran, un o swyddogion y gymdeithas,

mae'r swyddog, yn ogystal â'r gymdeithas, yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(7) Ym mharagraff (6), ystyr "swyddog" ("officer"), mewn perthynas â chymdeithas anghorfforedig, yw—

- (a) un o swyddogion y gymdeithas neu aelod o'i gorff llywodraethu, neu
- (b) person sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swyddogaeth o'r fath.

## Gorfodi

**38.—**(1) Yr awdurdod lleol sy'n gorfodi'r Rheoliadau hyn.

(2) Ond caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd, mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad arbennig neu mewn perthynas ag achosion arbennig, mai Gweinidogion Cymru fydd yn gorfodi'r Rheoliadau hyn yn lle'r awdurdod lleol.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "awdurdod lleol" ("local authority") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

## Amgylchiadau eithriadol

**39.** Caiff arolygydd milfeddygol, at ddibenion sicrhau iechyd neu les unrhyw geffyl—

- (a) trwyddedu person i gyflawni unrhyw weithred sydd, fel arall, wedi ei gwahardd o dan y Rheoliadau hyn; neu
- (b) esemptio person, drwy hysbysiad, rhag unrhyw ofyniad o dan y Rheoliadau hyn.

## Diwygiadau

**40.—**(1) Yn y Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu a Chigydda) 1992(1), yn erthygl 2 hepgorer y cyfeiriad at glefyd Affricanaidd y ceffylau.

(2) Yn y Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu) 1996(2), yn Rhan 1 o Atodlen 1 hepgorer y cyfeiriad at glefyd Affricanaidd y ceffylau.

- (b) to be attributable to any neglect on the part of, an officer of the association,

the officer, as well as the association, is guilty of the offence and is liable to be proceeded against and punished accordingly.

(7) In paragraph (6), "officer" ("swyddog"), in relation to an unincorporated association, means—

- (a) an officer of the association or a member of its governing body, or
- (b) a person purporting to act in such capacity.

## Enforcement

**38.—**(1) These Regulations are enforced by the local authority.

(2) But the Welsh Ministers may direct, in relation to cases of a particular description or in relation to particular cases, that the Welsh Ministers will enforce these Regulations instead of the local authority.

(3) In this regulation, "local authority" ("awdurdod lleol") means a county council or a county borough council.

## Exceptional circumstances

**39.** A veterinary inspector may for the purpose of ensuring the health or welfare of any horse—

- (a) license a person to carry out any action that is otherwise prohibited under these Regulations; or
- (b) exempt a person, by notice, from any requirement under these Regulations.

## Amendments

**40.—**(1) In the Specified Diseases (Notification and Slaughter) Order 1992(1), in article 2 omit the reference to African horse sickness.

(2) In the Specified Diseases (Notification) Order 1996(2), in Part 1 of Schedule 1 omit the reference to African horse sickness.

*Alun Davies*

Y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

3 Gorffennaf 2013

Minister for Natural Resources and Food

3 July 2013

(1) O.S. 1992/3159 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/2237 (Cy.199).  
(2) O.S. 1996/2628, yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1998/1645, 2006/2237 (Cy.199) a 2010/618 (Cy.60).

(1) S.I. 1992/3159 as amended by S.I. 2006/2237 (W.199).  
(2) S.I. 1996/2628, relevant amending instruments are S.I. 1998/1645, 2006/2237 (W.199) and 2010/618 (W.60).



## YR ATODLEN

Rheoliadau 8(2), 9(9), 10(8) a 18(5)

Mesurau mewn mangre sydd dan amheuaeth a mangre heintiedig ac mewn mangre mewn parth rheolaeth

### Cofnodion

1.—(1) Rhaid i'r prif feddiannydd gadw cofnod o bob ceffyl sydd yn y fangre.

(2) Rhaid i'r prif feddiannydd gymryd pob cam rhesymol i ddiweddarw'r cofnod i ddangos nifer y ceffylau yn y fangre sydd—

- (a) wedi marw;
- (b) yn dangos arwyddion clinigol o glefyd Affricanaidd y ceffylau;
- (c) wedi cael eu geni er pan osodwyd cyfyngiadau yn y fangre o dan y Rheoliadau hyn; a
- (d) wedi mynd i mewn i'r fangre neu ddod ohoni o dan drwydded.

(3) Rhaid i'r prif feddiannydd ofyn i unrhyw feddiannydd arall adrodd ynghylch unrhyw newidiadau ym manylion ei geffylau yn y fangre sy'n berthnasol i'r cofnod.

(4) Rhaid i'r prif feddiannydd gadw cofnod am gyfnod o chwe mis o leiaf wedi (yn ôl y digwydd)—

- (a) i'r hysbysiad a gyflwynwyd o dan reoliad 8(2), 9(8), neu 10(7) gael ei ddirymu, neu
- (b) i'r fangre beidio â bod o fewn y parth rheoli,

p'un bynnag yw'r diweddaraf.

### Lletya Ceffylau

2. Rhaid i feddiannydd sicrhau bod pob ceffyl yn y fangre yn cael ei gadw—

- (a) i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, yn y rhan neu'r rhannau o'r fangre lle y gallent fod yn llai agored i fectorau; neu
- (b) yn ôl cyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

## SCHEDULE

Regulations 8(2) 9(9), 10(8) and 18(5)

Measures on suspect and infected premises and on premises in a control zone

### Records

1.—(1) The main occupier must keep a record of every horse on the premises.

(2) The main occupier must take all reasonable steps to update the record to show the number of horses on the premises that—

- (a) have died;
- (b) show clinical signs of African horse sickness;
- (c) have been born since restrictions under these Regulations were placed on the premises; and
- (d) enter or leave the premises under licence.

(3) The main occupier must ask any other occupier to report any changes in the details of their horses on the premises that are relevant to the record.

(4) The main occupier must keep the record for at least six months after (as the case may be)—

- (a) the revocation of the notice served under regulation 8(2), 9(8), or 10(7), or
- (b) the premises ceasing to be within the control zone,

whichever is the later.

### Housing of horses

2. An occupier must ensure that every horse on the premises is kept—

- (a) so far as is practicable on the part or parts of the premises where they may be less exposed to vectors; or
- (b) as directed by a veterinary inspector.

### **Cyfyngu ar symud ceffylau, carcasau, cyfarpar neu ddeunydd genetig**

3. Ni chaiff neb symud unrhyw geffyl neu garcas i'r fangre neu ohoni, nac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd genetig o'r fangre, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddir gan arolygydd milfeddygol neu un o swyddogion Gweinidogion Cymru sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

### **Rheoli fectorau**

4. Rhaid i'r prif feddiannydd weithredu unrhyw fesurau ymarferol i reoli fectorau y caiff arolygydd milfeddygol eu gwneud yn ofynnol.

---

© 11 Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

### **Restriction on movement of horses, carcasses, equipment or genetic material**

3. No person may move any horse or carcase to or from the premises or any equipment or genetic material from the premises, except under the authority of a licence granted by a veterinary inspector or an officer of the Welsh Ministers acting under the direction of a veterinary inspector.

### **Control of vectors**

4. The main occupier must implement such practicable vector control measures as a veterinary inspector may require.

---

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.







**Cyhoeddwyd gan (The Stationery Office)**  
ac mae ar gael oddi wrth:

**Online**  
[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**  
TSO  
PO Box 29, Norwich NR3 1GN  
Archebion/ymholiadau ffôn 0870 600 5522  
Archebion ffacs 0870 600 5533  
[book.orders@theso.co.uk](mailto:book.orders@theso.co.uk)  
<http://www.ukstate.com>

**The Houses of Parliament Shop**  
12 Bridge Street, Parliament Square,  
Llundain SW1A 2JX  
Archebion dros y ffôn/ Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890  
Archebion ffacs: 020 7219 3866  
E-bost: [shop@parliament.uk](mailto:shop@parliament.uk)  
Gwefan: <http://www.shop.parliament.uk>

**TSO @ Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

**Published by TSO (The Stationery Office)**  
and available from:

**Online**  
[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**  
TSO  
PO Box 29, Norwich NR3 1GN  
General enquiries: 0870 600 5522  
Order through the Parliamentary Hotline Lo-call 0845 7 023474  
Fax orders: 0870 600 5533  
E-mail: [customer.service@tso.co.uk](mailto:customer.service@tso.co.uk)  
Textphone: 0870 240 3701

**The Houses of Parliament Shop**  
12 Bridge Street, Parliament Square,  
London SW1A 2JX  
Telephone orders/General enquiries: 020 7219 3890  
Fax orders: 020 7219 3866  
Email: [shop@parliament.uk](mailto:shop@parliament.uk)  
Internet: <http://www.shop.parliament.uk>

**TSO @ Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-348-10766-1

